Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## CANLLAWIAU REFENIW 2022-27

OGL © Hawlfraint Y Goron 2022 WG44255 ISBN Digidol 978-1-80391-706-1

## Rhagair i'r Canllawiau ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cafodd ein huchelgais ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ataliol ac integredig yng Nghymru eu hamlinellu yn y ddeddf arloesol, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ac yn ein cynllun 10 mlynedd 'Cymru Iachach'. Nod y ddau yw sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu'n seiliedig ar anghenion a dewisiadau unigolion, a chyda llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach mor agos i'w cartrefi ag sy'n bosibl.

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gweithredu'r weledigaeth sydd wedi'i nodi yn 'Cymru Iachach'. Fodd bynnag, rydym yn awyddus ein bod yn awr yn canolbwyntio ein hymdrechion ac yn cyflymu ein cynnydd i fynd ymhellach ac yn gyflymach i sicrhau'r gofal, y cymorth a'r canlyniadau gorau i bobl Cymru.

Wrth wireddu'r uchelgeisiau sydd wedi'u nodi yn 'Cymru Iachach', mae'r cynnydd parhaus tuag at integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i sicrhau gwasanaethau di-dor i'r bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Dros y blynyddoedd diwethaf drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi treialu a datblygu modelau gofal integredig allweddol sydd bellach yn darparu gwasanaethau hanfodol fel rhan o'n system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydnabod gwaith anhepgorol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystod pandemig COVID-19. Er na chrëwyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymateb i sefyllfaoedd brys, maent wedi parhau i gynllunio, datblygu a darparu ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd sydd wedi cefnogi llawer o bobl a'u gofalwyr drwy gyfnod anodd iawn. Rydym yn dal i ymladd y pandemig hwn, ac rydym yn disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i gynnig cymorth strategol yn eu rhanbarth i ddarparu gwasanaethau di-dor sy'n cefnogi ein hymateb parhaus.

Yn sgil cyflwyno'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gwerth £144.7 miliwn, rydym bellach mewn sefyllfa i ymgorffori ymhellach y modelau gofal hyn mewn gwasanaethau craidd, a hynny heb esgeuluso'r cyfle i barhau i ddatblygu rhai newydd.

Er ei bod yn glir y bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed drwy'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, nid yw'n barhad o'r cynlluniau hynny. Mae'n rhaglen newydd gyda phensaernïaeth ac amcanion cwbl wahanol. Mae'r gronfa hon yn dwyn ynghyd sawl ffrwd gyllido sydd eisoes yn bodoli i ganolbwyntio o'r newydd ar ofal yn y gymuned, iechyd a llesiant emosiynol, cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, plant â phrofiad o fod mewn gofal, gwasanaethau gartref o'r ysbyty ac atebion seiliedig ar lety.

Rydym wedi cyfuno ffrydiau cyllido a oedd gynt ar wahân i gysoni adnoddau ymhellach er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl a lleihau baich gweinyddol. Rydym wedi cyd-gynllunio strwythur cyllido newydd sy'n ymgorffori cynllunio ar gyfer

cynaliadwyedd a buddsoddiad ar gyfer y modelau gofal newydd hyn, gan ddibynnu ar bartneriaid i ddarparu cyllid cyfatebol ac ymrwymiad cadarn i brif ffrydio modelau gofal effeithiol yn y tymor hir.

Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein blaenoriaethau buddsoddi ar ddatblygu chwe model gofal newydd, sy’n deillio o brofiadau a gwersi’r Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid flaenorol.

Mae’r dull cydgynhyrchiol a ddefnyddiwyd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid allweddol eraill eleni, gan weithio gyda swyddogion i ddatblygu’r canllawiau ar gyfer y gronfa hon, wedi creu argraff arnom. Rydym yn ymwybodol o’r ymrwymiad a ddangoswyd, ac rydym yn credu ei fod wedi bod yn fuddsoddiad effeithiol gan fod yr agwedd ar y cyd at gynllunio’n parhau i mewn i’r flwyddyn gyntaf o gyflawni. Rydym yn cydnabod yn llawn y bydd newid i gyflwyno cyllid cyfatebol i sicrhau buddsoddiad adnoddau craidd mewn modelau gofal newydd yn peri heriau. Fodd bynnag, rydym yn glir, oni bai ein bod yn buddsoddi mewn trawsnewid ein system graidd, na fyddwn yn cyflawni’r trawsnewidiad yr ydym yn ei geisio.

Rhaid inni beidio ag anghofio mai diben y Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid oedd cyflwyno modelau gofal newydd llwyddiannus, yn hytrach na chyllido gwasanaethau a oedd eisoes yn bodoli. Rydym wedi dysgu gwersi defnyddiol o’r cronfeydd blaenorol ac mae pob un ohonynt wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu’r gronfa newydd hon. Rydym felly yn disgwyl i’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol greu dull partneriaeth gwirioneddol i fuddsoddi mewn gwasanaethau integredig ar gyfer y tymor hir. Er mwyn cyflawni hyn, ni ddylid ystyried gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel ychwanegiad at ein gwasanaethau presennol, ond fel nodwedd graidd o’n system iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y dyfodol. Rhaid inni drawsnewid rhai o’r ffyrdd ynysig, hen ffasiwn o weithio a’u disodli â modelau gofal integredig newydd a fydd yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru.

Eluned Morgan, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan, Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Lynne Neagle, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

## Trosolwg a Chyd-destun Strategol

Cronfa 5 mlynedd ar gyfer cyflawni rhaglen newid rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2027 yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Gronfa yn adeiladu ar y dysgu a'r cynnydd a wnaed o dan y cronfeydd blaenorol, sef y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, a bydd yn ceisio creu newid cynaliadwy yn y system trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nodweddion a gwerthoedd allweddol y Gronfa yw:

- Canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan
- Datblygu ac ymgorffori modelau gofal integredig cenedlaethol (gelwir y rhain yn fodelau gofal hefyd yn y ddogfen hon)
- Rhannu dysgu ledled Cymru a thrwy Gymunedau Ymarfer
- Adnoddau hirdymor cynaliadwy er mwyn ymgorffori a phrif ffrydio modelau gofal newydd
- Creu trefniadau cyllido cyfun hirdymor
- Buddsoddi cyson mewn cynllunio rhanbarthol a seilwaith partneriaeth

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ysgogiad allweddol ar gyfer sbarduno newid a thrawsnewid trwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth wneud hynny bydd yn cynorthwyo'n uniongyrchol i weithredu sawl darn polisi a darn deddfwriaeth allweddol. Bwriad yr adran a ganlyn yw disgrifio'r tirlun polisi a'r tirlun deddfwriaethol lle buddsoddir yr arian, a rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y byddant yn defnyddio'u hadnoddau cyfunol (gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ac adnoddau craidd eraill) i gyflawni'r agendâu pwysig a chydgysylltiedig hyn.

Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd, fel y bydd modd i ddinasyddion Cymru, waeth ble maen nhw'n byw, fod yn dawel eu meddwl y cânt wasanaeth effeithiol a di-dor mewn perthynas â'r canlynol:

- Gofal cymunedol – *atal a chydgysylltu cymunedol*
- Gofal cymunedol – *gofal cymhleth yn nes at y cartref*
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion seiliedig ar lety

Bydd Cymunedau Ymarfer yn cael eu sefydlu i rannu dysgu a chynorthwyo i ddatblygu ac ymgorffori'r modelau gofal integredig hyn.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i weithio gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i

gymryd rhan mewn trefniadau partneriaeth er mwyn rhoi swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar waith. Ymhellach, ymhlith pethau eraill mae'r Rheoliadau Partneriaeth yn darparu ar gyfer gweithredu a rheoli'r trefniadau partneriaeth (yn cynnwys rhannu data), sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hwyluso'r trefniadau partneriaeth a wneir rhwng Bwrdd Iechyd Lleol ac un neu fwy o Awdurdodau Lleol. Caiff amcanion y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol eu pennu yn Rheoliad 10 o'r Rheoliadau Partneriaeth, a'u diben yw sicrhau y bydd y cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol, ynghyd â sicrhau y bydd y cyrff partneriaeth yn darparu adnoddau digonol ar gyfer y trefniadau partneriaeth.

Yn ychwanegol at bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, mae aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector tai, y sector addysg, y trydydd sector, darparwyr, dinasyddion a chynrychiolwyr gofalwyr er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig mewn modd effeithiol yng Nghymru. Eu diben yw gwella canlyniadau a llesiant pobl ag anghenion gofal a chymorth, ynghyd â gofalwyr sydd angen cymorth. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio fel partneriaeth er mwyn mynd ati mewn modd strategol i gynllunio, rheoli a datblygu gwasanaethau gofal a chymorth effeithiol y mae eu hangen i ddiwallu anghenion eu priod boblogaethau.

O dan y Papur Gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, sefydlwyd rhaglen waith i gryfhau mwy ar y trefniadau partneriaeth yma; bydd hyn yn cynnwys cryfhau'r cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol eraill, yn cynnwys Ymddiriedolaethau Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Gofal Sylfaenol.

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn canolbwyntio ar gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. Rhydd y rhan hon ddyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu gydag awdurdodau lleol a darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys cyd-asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth.

Rhaid i'r Asesiadau hyn o Anghenion y Boblogaeth nodi'r canlynol: i ba raddau y methir â diwallu anghenion, ystod a lefel y gwasanaethau sy'n angenrheidiol (yn cynnwys gwasanaethau ataliol), a sut y bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r asesiadau hyn yn offeryn allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal mewn modd integredig yn y rhanbarth, ac ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gesglir trwy gyfrwng Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, byddant yn helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i lunio'u Cynlluniau Ardal ar y Cyd. Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio casgliadau eu Hasesiadau o Anghenion y Boblogaeth a'u Hadroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad i lunio cynnig buddsoddi cydlynus i ategu'r modelau gofal a'r fframwaith canlyniadau ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhoi'r ffyrdd gweithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar waith; sef: ***hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys*** er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio'n well ar gyfer ***llesiant*** ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu hefyd ar gyfer sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddwyn ynghyd amrywiaeth o bartneriaid sy'n cynllunio ar gyfer llesiant eu hardal. Gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd i ategu llesiant unigolion ag anghenion iechyd a gofal, mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gylch gwaith ehangach sy'n canolbwyntio ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ardaloedd ar raddfa'r 'boblogaeth gyfan'. Ymhellach, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithredu o fewn ôl troed mwy lleol na Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol; er, dros amser mae rhai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi uno i adlewyrchu eu rhanbarth.

Gan fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol â chylch gwaith i hyrwyddo llesiant y boblogaeth, mae hi'n hanfodol iddynt gydweddu â'i gilydd, gan rannu gwybodaeth a chynllunio blaenoriaethau ac adnoddau pan fo'n briodol.

Yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartner-sefydliadau barhau i hwyluso ymgysylltu a chyd-gynhyrchu parhaus wrth greu cynlluniau strategol, wrth lunio a darparu gwasanaethau ac wrth ymgymryd â threfniadau craffu.

## Cymru Iachach

Cymru Iachach yw cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer cael dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, lle canolbwyntir ar iechyd a llesiant ac ar atal salwch, gyda mynediad at ystod eang o wasanaethau cymunedol di-dor. Mae'n cydnabod bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn hollbwysig o ran ysgogi integreiddio, gan eu bod yn gallu cyfuno adnoddau ac arbenigedd i ddarparu modelau gofal ataliol, di-dor yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ysgogi'r trawsnewid hwn, a thrwy gymorth y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol rhaid iddynt gynorthwyo i ddarparu modelau gofal er mwyn gwireddu gweledigaeth Cymru Iachach.

Nod Pedwarplyg Cymru Iachach yw cysylltu pedair thema allweddol er mwyn ysgogi'r gwaith o gyd-gynhyrchu a chyflawni'r nodau a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyma'r pedair thema:

- Gwella iechyd a llesiant y boblogaeth;
- Gwella ansawdd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol;
- Cynyddu'r gwerth a gyflawnir gan iechyd a gofal cymdeithasol;

- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol brwd a chynaliadwy.

Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r Nod Pedwarplyg yn ymarferol, ceir deg o 'egwyddorion cynllunio' er mwyn helpu i gydweddu'r rhaglenni niferus y mae eu hangen i gyflawni system iechyd a gofal cymdeithasol integredig yng Nghymru. Dyma'r deg egwyddor cynllunio, ynghyd ag enghreifftiau o ffyrdd o'u defnyddio:

- Atal ac ymyrryd yn fuan
- Diogelu
- Annibyniaeth
- Llais
- Personol
- Di-dor
- Gwerth uwch
- Tystiolaeth
- Datblygu

Dylai'r egwyddorion hyn fod yn sail i ddarparu modelau gofal yn y dyfodol o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Y Rhaglen Lywodraethu

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2025 yn nodi deg o amcanion llesiant; dylai pob gweithgarwch a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gadw'r amcanion hyn mewn cof a cheisio cyfrannu atynt. Dyma'r 10 amcan llesiant:

- Darparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel
- Parhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldeb addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi
- Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math
- Adeiladu economi ar sail egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu
- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn
- Arwain Cymru mewn sgwrs genedlaethol ar y cyd ynglŷn â'n dyfodol cyfansoddiadol, a rhoi'r presenoldeb cryfaf posibl i'n gwlad ar y llwyfan byd-eang.

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cefnogi nifer o'r amcanion hyn, a dylai'r modelau gofal a ddatblygir o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ystyried yr amcanion hyn i gyd ynghyd â'r modd y gallant gyfrannu at eu cyflawni. Er enghraifft,

rhaid i fodelau gofal gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg, lleihau eu hôl troed carbon ac ystyried sut y gall darparu gwasanaethau yn nes at gymunedau pobl gynorthwyo hefyd i adfywio canol trefi.

Ymhellach, bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhoi cymorth uniongyrchol – ac anuniongyrchol, mewn rhai achosion – i'r gwaith o gyflawni nifer o ymrwymiadau presennol y Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys:

- Darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Diwygio gofal sylfaenol, gan ddod â gwasanaethau meddygon teulu, fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector at ei gilydd.
- Blaenoriaethu buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.
- Blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau i wella dulliau ataliol, mynd i'r afael â stigma a hyrwyddo dull 'dim drws anghywir' o ddarparu cymorth iechyd meddwl.
- Cyflwyno fframwaith Cymru gyfan i gyflwyno presgripsiynu cymdeithasol i helpu pobl sy'n teimlo'n ynysig.
- Cyflwyno cod ymarfer statudol ar gyfer darparu gwasanaethau awtistiaeth.
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal.
- Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
- Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Deddfu i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach, gan roi sylw i'r ymatebion a gafwyd i'n papur gwyn ar Ailgydbwyso Gofal a Chymorth.
- Datblygu mwy na 50 o hybiau cymunedol lleol i gydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a gwasanaethau eraill.

## Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau

Wrth gynllunio a chyflawni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a datblygu'r modelau gofal integredig cenedlaethol, fe fydd angen cydweddu ac ymgysylltu cynyddol rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chlystyrau sy'n dwyn ynghyd yr holl wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, gan wasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod eu cynlluniau buddsoddi mewn perthynas â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cydweddu â modelau gofal cenedlaethol a ddatblygwyd trwy gyfrwng y tair Rhaglen Iechyd Genedlaethol, sef: Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Brys ac Argyfwng, a Gofal Sylfaenol. Yn arbennig felly, dylent gydweddu â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Rhaglen Garlam Datblygu Clystyrau Gofal Sylfaenol, a fydd yn cryfhau cydweithredu lleol o ran cynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion iechyd a llesiant penodol unigolion, a bydd angen i Grwpiau Cynllunio Ledled Clystyrau ystyried sut y gallant gydweddu â chynlluniau a gweithgarwch Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

## Y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid

Hyd yn hyn, mae'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid wedi bod yn ddulliau allweddol o ysgogi integreiddio trwy gyfrwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Maent wedi esgor ar ddatblygu a sefydlu rhai modelau gofal integredig allweddol sydd bellach yn rhannau hanfodol o'n system iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn ymgorffori'r modelau gofal hyn ymhellach mewn gwasanaethau craidd, a rhoi cyfle i greu rhai newydd, mae'r gronfa gyfunol newydd (y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol) yn adeiladu ar y cynnydd da sydd eisoes wedi'i wneud ac yn sicrhau bod y modelau gofal hyn yn cael eu hymgorffori'n llwyr yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae adolygiad Archwilio Cymru (2019) o'r Gronfa Gofal Integredig yn nodi chwe argymhelliad allweddol i wella'r modd y gellid darparu'r gronfa honno yn ystod 2020-21.

- Canllawiau a phenderfyniadau prydlon er mwyn sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r arfer o gyhoeddi canllawiau'n gynharach.
- Ystyried cydweddu cronfeydd tymor byr lluosog ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a thai, gan leihau dyblygu.
- Cryfhau mwy ar y trefniadau llywodraethiant trwy adolygu trefniadau'r bwrdd prosiect.
- Sicrhau bod trefniadau craffu priodol ar waith ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar ran y cyrff [partner] hynny.
- Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gytuno ar fesurau canlyniadau allweddol, egluro'r diben sydd wrth wraidd rhannu gwybodaeth a symleiddio gofynion adrodd.
- Cynyddu'r cymorth ar gyfer dysgu ar y cyd ar draws Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli cyllid a goresgyn heriau o ran prif ffrydio prosiectau llwyddiannus.

Cafodd yr argymhellion hyn i gyd eu hystyried a'u rhoi ar waith wrth ddatblygu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, ac mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgil adroddiad Archwilio Cymru a gwerthusiadau eraill wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd.

Bydd gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022. Bydd y gwerthusiad hwn yn asesu effaith y Gronfa Gofal Integredig o ran creu newid yn y system i wella'r gallu i ddiwallu anghenion pobl mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r gwerthuswyr annibynnol er mwyn sicrhau bod y gwersi a ddeilliodd o'r gwerthusiad wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lunio'r canllawiau. Mae argymhellion yr adroddiad gwerthuso yn debygol o ganolbwyntio ar y canlynol:

- Yr angen i gynnal ffurf ar gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer integreiddio
- Yr angen i'r egwyddor 'gwelliannau a newid cynaliadwy' fod yn sail i'r cyllid

- Sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng presgripsiynu cenedlaethol a disgresiwn lleol/rhanbarthol
- Defnyddio data i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth ynghyd â gwelliannau ansawdd
- Sicrhau bod canlyniadau'r cyllid yn arwain at ddysgu ac at ledaenu arferion da

Ymhellach, yn 2020 comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad o'r Gronfa Trawsnewid a chyhoeddwyd diweddariad blynyddol ym mis Gorffennaf 2021 lle tynnir sylw at yr argymhellion canlynol:

1. Mae angen i brosiectau'r Gronfa Trawsnewid ganolbwyntio o'r newydd ar weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, ac ystyried cynnwys hyn fel rhan o'u gweithgareddau adolygu a gwerthuso parhaus.
2. Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gofnodi tystiolaeth a chyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol a gyflawnir.
3. Mae angen i raglenni flaenoriaethu eu cynlluniau ymadael ar gyfer prosiectau a rhaglenni a ariennir.
4. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i weithredu'r trefniadau llywodraethiant symlach ac effeithiol a gyflwynwyd mewn ymateb i Covid-19.

Yn ychwanegol at yr argymhellion hyn, nodwyd argymhellion strategol, tymor hwy yn y gwerthusiad:


5. Cydnabod bod trawsnewid yn broses hirdymor, ac ystyried trefniadau pontio di-dor ar ôl Ebrill 2022; dylai unrhyw drefniadau cyllido yn y dyfodol fabwysiadu'r egwyddor sydd ynghlwm wrth gyllid wedi'i dapro er mwyn atgyfnerthu pa mor bwysig yw mwy o hunangynaliadwyedd.
6. Cyfuno ffrydiau cyllido iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig y Gronfa Trawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig, er mwyn cael un gronfa strategol tymor hwy i ysgogi trawsnewid ar draws y sector.
7. Rhoi damcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso clir ar waith o'r cychwyn cyntaf, ynghyd â chanlyniadau lefel uchel sydd wedi'u diffinio'n glir, a ategir gan fesurau neu ddangosyddion y gellir eu monitro i olrhain yr effaith.
8. Dylai cyllid newydd ddarparu eglurder ar y themâu blaenoriaeth cyffredinol, a dylid datblygu'r themâu hyn ar y cyd â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd natur y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gyda'i hoes 5 mlynedd, ei fframwaith canlyniadau clir a'i chynlluniau gwerthuso, yn cyflawni yn erbyn yr argymhellion strategol hyn ac yn galluogi'r partneriaid i gyflawni a dangos effaith hirdymor.

## Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu

Mae'r model Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) ar gyfer Cymru, a gefnogwyd gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, bellach wedi datblygu'n fframwaith allweddol y gellir ei ddefnyddio i gynllunio a darparu gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ysbyty mewn modd integredig ledled Cymru. Fe'i lluniwyd gyda rhanddeiliaid a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyda'r nod o gael

model hyblyg, ac o’r herwydd fe’i rhoddwyd ar waith gan holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru. Mae’r llwybr 0-4 a nodir yn y model isod yn amrywio o weithgarwch atal cymunedol hyd at asesiadau a chymorth integredig er mwyn sicrhau y gall pobl ddychwelyd i’w cartrefi mor fuan a diogel â phosibl.




*Cyfeiriad:* [Rhoi Gartref yn Gyntaf ar Waith (llyw.cymru)]

Mae’r fframwaith D2RA wedi helpu i siapio’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a’r modelau gofal a fydd yn ategu’r gwaith o ddarparu ac ymgorffori’r pum llwybr sy’n berthnasol i D2RA.

## Seilwaith ehangach i ategu darpariaeth integredig

Caiff y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ei hategu gan egwyddorion allweddol er mwyn grymuso Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu modelau gofal arloesol, integredig a thrawsnewidiol. Yn hyn o beth, mae’n hollbwysig bod yn ymwybodol o’r seilwaith ehangach sydd ar gael yn y system iechyd a gofal cymdeithasol – seilwaith y gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydweddu ag ef neu elwa’n uniongyrchol arno wrth ddatblygu a darparu eu modelau gofal integredig. Mae cyfleoedd allweddol i gydweddu mewn partneriaeth yn cynnwys y canlynol:

***System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)*** – Dyma raglen bwysig ac uchelgeisiol a roddir ar waith gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru o dan gyd-drefniadau llywodraethiant y GIG ac Awdurdodau Lleol, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae WCCIS yn elfen allweddol o'r uchelgais strategol i ddarparu gofal diogel, effeithiol, lleol ac integredig ar draws gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd cymunedol trwy gyflwyno un system a chydgofnod electronig ar draws Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Cymru. Mae'r rhaglen hon yn bur wahanol i sefyllfaoedd lle ceir amryfal systemau ar gyfnodau datblygu gwahanol a lle defnyddir cofnodion papur.

Pan fo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ystyried dulliau galluogi digidol ar gyfer modelau gofal newydd, dylent ymgysylltu â thimau WCCIS lleol a Thîm y Rhaglen Genedlaethol er mwyn deall sut y gall platfform WCCIS roi cymorth effeithiol o ran rhannu gwybodaeth a chynnig profiad di-dor i ddefnyddwyr gwasanaethau.

***Hybiau Ymchwil, Arloesi, Gwella a Chyfathrebu (RIIC)*** - Roedd yr angen i wella'r modd y cyd-gysylltir ymchwil, arloesedd a gwelliannau yn gam gweithredu allweddol a nodwyd yn Cymru Iachach, ac er mwyn helpu i esgor ar hyn cafodd pob rhanbarth/Ymddiriedolaeth GIG trwy Gymru grant am ddwy flynedd i ddatblygu eu gallu ar y cyd mewn perthynas ag ymchwil, arloesedd a gwelliannau yn y maes iechyd a gofal. Disgwylir i bob Hwb Ymchwil, Arloesi, Gwella a Chyfathrebu (RIIC) gyflawni'r canlynol:

- Cydgysylltu a chydweddu tirwedd anhrefnus yn well
- Tystiolaeth ynglŷn ag integreiddio, ffordd newydd o weithio a dulliau seiliedig ar ansawdd mewn perthynas ag ymchwil, arloesi a gwella
- Gwell seilwaith ar gyfer ymchwil, arloesi a gwella
- Gwella ansawdd a gwerth ymchwil, arloesi a gwella

Disgwylir i bob Hwb gyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno trosolwg cynhwysfawr a chyfredol o'r holl weithgareddau ymchwil, arloesi a gwella trwy ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Llunio dadansoddiad strategol cydlynol o'r gweithgarwch hwn
- Sicrhau yr hysbysir ac yr ymgysylltir ag arweinwyr, partneriaid a rhanddeiliaid
- Gweithio gyda hybiau rhanbarthol eraill, fel rhwydwaith cenedlaethol, gyda phwyslais ar ysgogi'r arfer o fabwysiadu a lledaenu gweithgarwch
- Gweithio gyda chyrff cenedlaethol, fel yr Hwb Gwyddorau Bywyd, Technoleg Iechyd Cymru a Gwelliant Cymru

Erbyn hyn, mae cyllid yr Hwb Ymchwil, Arloesi, Gwella a Chyfathrebu ar gyfer 2022/23 wedi'i gadarnhau fel y gellir parhau gyda'r gweithgarwch hwn.

***Y Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF)*** – Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol wedi cyfrannu at ddatblygu amrywiaeth o raglenni/prosiectau cydweithredol arloesol yn ymwneud â gweddnewid y gwasanaeth iechyd yn ddigidol. Bydd y defnydd a wneir o systemau digidol yn cynyddu yn y dyfodol a bydd systemau o'r fath yn dod yn bwysicach mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried cynigion posibl yn ymwneud â'r Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol wrth ddatblygu modelau gofal integredig newydd o fewn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Cyllid Cyfalaf

Er mai cronfa refeniw yw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae adnoddau cyfalaf ar gael hefyd. Mae'r gwaith o lunio canllawiau'n ymwneud â'r adnoddau cyfalaf hyn ar y gweill ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cynllunio'n strategol ar gyfer buddsoddi cronfeydd refeniw a chronfeydd cyfalaf, gan eu cydweddu pan fo modd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf.

Bydd rhagor o ganllawiau ar gronfeydd cyfalaf yn dilyn, ond dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod yn ymwybodol o gyfleoedd i gydweddu adnoddau cyfalaf a refeniw yn y meysydd blaenoriaeth a ganlyn:

- Datblygu canolfannau a hybiau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned
- Datblygu llety a all ddiwallu anghenion y bobl hynny sydd angen gofal a chymorth
- Ailgydbwyso'r sector gofal preswyl.

## Y Gymraeg a Chydraddoldeb

I nifer o bobl yng Nghymru, mae gallu defnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollbwysig. Wrth ddatblygu modelau gofal ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau y gallant ategu fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol – sef 'Mwy na Geiriau' – gan sicrhau y bydd modd diwallu anghenion iaith siaradwyr Cymraeg, a chan ddeall bod iaith yn rhan bwysig o ansawdd y gofal a roddir. Yn arbennig, dylai partneriaid anelu at ddefnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i wella'u gallu i ddarparu arlwy gweithredol o wasanaethau iechyd a gofal integredig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd, bydd angen i'r rhanbarthau fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o ran nodweddion gwarchodedig fel y'u nodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a darpariaethau penodol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mewn perthynas â nodweddion, diwylliant a chredoau unigolion (yn cynnwys, er enghraifft, iaith). Bydd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi yn 2022 a bydd yn cael ei ddosbarthu maes o law.

# Fframwaith cenedlaethol ar gyfer blaenoriaethau a modelau gofal integredig


## Nodau ac egwyddorion allweddol y gronfa

Fel y nodir yn y cyflwyniad, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn ysgogiad allweddol ar gyfer sbarduno newid a thrawsnewid trwy'r system iechyd a gofal

cymdeithasol. Ein nod yw y byddwn, erbyn diwedd y pum mlynedd, wedi sefydlu a phrif ffrydio o leiaf chwech o fodelau gofal integredig cenedlaethol newydd, fel y bydd modd i ddinasyddion Cymru, ni waeth ymhle y bônt yn byw, fod yn dawel eu meddwl y cânt wasanaeth effeithiol a di-dor.

Fel y nodir yn Cymru Iachach, bydd ein gweledigaeth ar gyfer dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol angen ymdrech system gyfan. Mae’r Gronfa Gofal Integredig a’r Gronfa Trawsnewid flaenorol wedi cynorthwyo i ddatblygu modelau gofal a gwasanaethau lleol a rhanbarthol. Ein her yn awr yw sicrhau y bydd modd mabwysiadu ac ymgorffori’r modelau llwyddiannus hynny yn genedlaethol.

Mae’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn fuddsoddiad pwysig a sylweddol, a rhaid targedu’r arian at fodelau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a fydd yn esgor ar well gwerth, gyda’r nod o gyflymu eu datblygiad a dangos eu gwerth. Ar ddiwedd y rhaglen pum mlynedd, disgwyliwn weld y bydd y modelau gofal cenedlaethol hyn wedi cael eu hymgorffori ledled Cymru.




Rhaid i bob gweithgarwch a ariennir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fynd ati’n uniongyrchol i ddatblygu a darparu chwe model gofal integredig cenedlaethol, sef:

- Gofal cymunedol – *atal a chydgysylltu cymunedol*
- Gofal cymunedol – *gofal cymhleth yn nes at y cartref*
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda’i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o’r ysbyty
- Atebion seiliedig ar lety

(Gweler y blychau glas yn ffig. 1 isod).


Bydd chwech o Gymunedau Ymarfer yn cael eu sefydlu i rannu dysgu a chynorthwyo i ddatblygu ac ymgorffori'r modelau gofal integredig hyn.

Bydd gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol beth hyblygrwydd i benderfynu pa brosiectau a gwasanaethau a fydd yn cydweddu â pha fodel gofal, ond yn y bôn bydd yn rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau'r canlynol:

- Eu bod yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu ac ymgorffori'r chwe model gofal â blaenoriaeth (gweler y blychau glas yn ffig. 1).
- Bod modd iddynt ddangos bod prosiectau a gwasanaethau'n esblygu i ddiwallu anghenion yr holl grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth (gweler y blychau melyn yn ffig. 1) ym mhob model gofal (gan nodi y bydd rhai grwpiau blaenoriaeth yn fwy perthnasol nag eraill i bob model gofal).
- Eu bod yn defnyddio dulliau galluogi allweddol i'r graddau mwyaf posibl (gweler y blychau gwyrdd yn ffig. 1) er mwyn sicrhau bod eu modelau gofal yn arloesol, yn integredig ac yn drawsnewidiol.
- Eu bod yn manteisio ar bob cyfle ar draws yr holl grwpiau poblogaeth i gynyddu 'arlwy gweithredol' y gwasanaethau integredig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall partneriaid 'symud' yr adnoddau craidd i'w buddsoddi fel arian cyfatebol er mwyn sicrhau y gellir darparu modelau gofal newydd mewn modd cynaliadwy yn yr hirdymor.

Er y bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cynnig cyfle i gynorthwyo i greu mwy o fodelau gofal newydd, bydd hefyd yn galluogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i brif ffrydio ac ymgorffori modelau darparu effeithiol a brofwyd eisoes o dan y Gronfa Gofal Integredig neu'r Gronfa Trawsnewid, a bydd hefyd yn cynorthwyo i gydweddu ac integreiddio gwasanaethau presennol mewn modd strategol.

*Ffig. 1 – Modelau gofal cenedlaethol ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol*




Cafodd y chwe model gofal hyn eu pennu a'u blaenoriaethu ar gyfer buddsoddi ar sail profiadau a gwersi a ddeilliodd o'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid a thrwy fynd i'r afael â gwaith ymgysylltu a gwaith cyd-lunio helaeth gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid allweddol.

Yn dilyn y buddsoddiad a wnaed gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, mae'r chwe model gofal hyn wedi cyrraedd cyfnodau gwahanol yn eu datblygiad – mae rhai ohonynt yn barod i gael eu prif ffrydio, gydag eraill yn dal i fod yng nghyfnod cynnar eu datblygiad. Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cefnogi cynnydd a gwaith prif ffrydio pellach mewn perthynas â'r modelau hyn trwy wneud y canlynol:

- Helpu rhanbarthau i rannu dysgu trwy gyfrwng Cymunedau Ymarfer
- Llunio 'glasbrintiau' ar gyfer y modelau gofal cenedlaethol hyn
- Mesur yr effeithiau yn erbyn fframwaith canlyniadau y cytunwyd arno'n genedlaethol a defnyddio data i siapio a gwella'r ddarpariaeth
- Sicrhau 'arian cyfatebol' prif ffrwd ochr yn ochr â lleihad yng nghyllid Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y caiff y modelau gofal integredig hyn eu prif ffrydio
- Gadael gwaddol ar ffurf 'cyllid cyfun' tymor hwy fel y gellir parhau i ddarparu'r modelau gofal hyn mewn modd cynaliadwy

Rhaid ategu darpariaeth y modelau gofal integredig cenedlaethol gyda'r pedair egwyddor sylfaenol a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant:

**Llais a rheolaeth** – rhoi unigolyn a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt er mwyn cyrraedd y canlyniadau sy'n eu helpu i gyflawni llesiant.

**Atal ac ymyrryd yn fuan** – cynyddu gwasanaethau ataliol yn y gymuned er mwyn lleihau'r cynnydd mewn anghenion critigol.

**Llesiant –** cynorthwyo pobl i gyflawni eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth.

**Cydgynhyrchu –** annog unigolion i gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.


A hefyd:

**Y Gymraeg** – sicrhau y cynigir cyfle i bobl gael gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a bod anghenion iaith siaradwyr Cymraeg yn cael eu diwallu, gan sicrhau bod iaith yn rhan bwysig o ansawdd y gofal a roddir.

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi mwy o fanylion am y matrics blaenoriaethau yn ffig. 1, gan ymdrin â'r canlynol:

- Y Modelau Gofal Cenedlaethol
- Dulliau Galluogi Allweddol
- Grwpiau Poblogaeth â Blaenoriaeth

## Modelau Gofal Integredig Cenedlaethol




## Gofal cymunedol – atal a chydgysylltu cymunedol

Dylid cynorthwyo pobl i fyw eu bywydau'n i'r eithaf. Trwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn fuan, gallwn gyfoethogi llesiant pobl a sicrhau y bydd y gwasanaethau cyhoeddus hynny y mae pobl eu hangen yn fwy cynaliadwy. Mae Adran 15 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu a threfnu gwasanaethau i atal neu ohirio anghenion gofal a chymorth. Wrth arfer eu swyddogaethau, rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol ystyried pa mor bwysig yw cyflawni'r dibenion hyn yn eu hardaloedd.

Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cynorthwyo sefydliadau i feithrin cadernid pobl a chymunedau, gan gymedroli'r galw am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol acíwt, a thrwy hynny sicrhau y gellir bodloni anghenion mwy cymhleth pan fo angen. Bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn galluogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i fuddsoddi mewn gwasanaethau cymunedol ataliol ac yn y gwaith o gynorthwyo dinasyddion. Bydd y model gofal hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at gynorthwyo i roi llwybr 0 y llwybr Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) ar waith.

Yn arbennig, bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn cynorthwyo i symud at y model gofal perthynol ar ochr dde'r siart ganlynol. Mae'r model gofal hwn yn galluogi pobl i aros yn annibynnol cyhyd ag y bo modd trwy gynnal ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol pobl a thrwy ehangu adnoddau cymorth a geir yn y gymuned o'u cwmpas – adnoddau nad defnyddiwyd o'r blaen, o bosibl.

| Darparu gwasanaethau | | Meithrin llesiant |
|---|---|---|
| Datrys y broblem | → | Meithrin y bywyd llesol |
| Rheoli'r angen | → | Meithrin gallu |
| Diwylliant rhyngweithredol | → | 'Perthnasoedd' uwchlaw popeth arall |
| Cyfrif mewnbynnau | → | Cysylltu amryfal adnoddau |
| Rheoli risgiau | → | Creu posibiliadau |
| Caeedig | → | Agored |

*Yn seiliedig ar: Hilary Cottam (2018) Radical Help.*

Er mwyn cyflawni hyn, mae hi'n hanfodol i bobl allu cysylltu, yn cynnwys trwy gael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth iawn, a hynny cyn gynted â phosibl, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Gall enghreifftiau o gymorth o dan y model hwn gynnwys:

- Modelau gofal sy'n helpu pobl i gysylltu â gwasanaethau a chyfleoedd llesiant yn eu cymuned – sef gwasanaethau a chyfleoedd a fydd yn eu helpu i aros yn iach ac yn helpu i osgoi'r angen am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lefel uwch, yn cynnwys mynd i'r ysbyty. Gall enghreifftiau gynnwys:
    - gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol,
    - cyfleoedd llesiant a hunanofal yn y gymuned,
    - ailgysylltu pobl â'u rhwydweithiau cymdeithasol eu hunain,
    - gwybodaeth a chyngor,
    - gwasanaethau cysylltwyr/llyw-wyr cymunedol.
- Hybiau cymunedol a all gynorthwyo pobl i gael mynediad at yr amrywiaeth uchod o wasanaethau trwy gyfrwng un man cyswllt yn y gymuned
- Gwasanaethau atal cwympo
- Gwasanaethau ymateb cyflym er mwyn osgoi trosglwyddo pobl i'r ysbyty
- Gwasanaethau cofleidiol yn y gymuned sy'n atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty pan fo unigolion yn ymddangos wrth 'ddrws ffrynt' yr ysbyty (e.e. Adran Argyfwng/Uned Asesu Meddygol)

## Gofal cymunedol – gofal cymhleth yn nes at y cartref

Yn yr un modd â'r model gofal uchod, dylai'r model 'Gofal cymhleth yn nes at y cartref' gynorthwyo i roi'r Llwybrau D2RA ar waith, gan helpu i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl mor agos â phosibl at eu cartrefi, mewn modd di-dor ac integredig. Gall hyn gynnwys:

- Modelau gofal sy'n helpu pobl i adfer yn dilyn cyfnod o salwch neu ddigwyddiad arall mewn bywyd, ac sy'n eu gwneud yn llai dibynnol ar ofal hirdymor, trwy gyfrwng gwasanaethau ailalluogi ac ailsefydlu cymunedol, er mwyn gwella annibyniaeth pobl, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a gwneud pobl yn llai dibynnol ar ofal hirdymor.
- Modelau gofal sy'n cynnig gofal a chymorth integredig yn y cartref i unigolion ag anghenion gofal a chymorth mwy cymhleth, er enghraifft Timau Ymateb Cymunedol.
- Modelau gwasanaeth sy'n cynnig cymorth effeithiol i eiddilwch/amryfal gyflyrau iechyd yn y gymuned.

## Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth a phenderfynu ar lefel y gwasanaethau iechyd a llesiant emosiynol y byddant yn buddsoddi ynddynt ar draws pob oedran o'u poblogaeth. Rhagdybir y bydd dull hyblyg yn cael ei roi ar waith er mwyn i'r rhanbarthau allu pennu modelau gofal newydd neu integredig i gefnogi'r flaenoriaeth hon.

Gan ategu, ond heb ddisodli, buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau iechyd meddwl acíwt, yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn anelu at gynorthwyo modelau gofal a all gynnwys:

- cynorthwyo unigolion i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant emosiynol eu hunain
- caniatáu i sefydliadau gynorthwyo unigolion neu grwpiau ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol
- cynorthwyo i gyfathrebu ac ymgysylltu ynglŷn ag iechyd a llesiant emosiynol
- cynorthwyo i weithredu fframwaith NYTH/NEST ar gyfer plant a phobl ifanc

## Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal

Gan gyd-fynd â'r egwyddor 'atal ac ymyrryd yn fuan', dylid defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i weithio gyda theuluoedd i'w helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac osgoi'r angen i blant dderbyn gofal. Bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol weithio oddi mewn i gyd-destun strategol cyffredin sy'n cynnwys, ac sy'n gweithio tuag at gyflawni, blaenoriaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwasanaethau plant. Dylid integreiddio modelau gofal yn glir ledled partner-sefydliadau fel y gellir cynnig ymateb cydweithredol i deuluoedd a phlant.

Gall enghreifftiau llwyddiannus gynnwys:

- Modelau gofal sy'n gweithio mewn modd cadarnhaol gyda theuluoedd er mwyn eu helpu i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac osgoi'r angen i blant dderbyn gofal. Gall hyn gynnwys amgylchiadau pan fo gan blant anghenion cymhleth o ran iechyd, ymddygiad neu ofal.
- Modelau gofal sy'n cynnig ymateb integredig mewn perthynas ag iechyd, gofal ac addysg i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac sydd ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol cymhleth.

## Gartref o'r Ysbyty

Pan fo modd, dylid cynnig cymorth i bobl er mwyn eu helpu i aros gartref yn iach, a bwriad ein modelau **gofal cymunedol** cenedlaethol yw cynnig gofal ataliol ynghyd ag ymateb cyflym pan fo angen er mwyn osgoi'r angen i drosglwyddo pobl i'r ysbyty. Fodd bynnag, gan gydnabod y bydd rhai pobl wastad angen asesiad/triniaeth acíwt mewn ysbyty, mae hi'n hanfodol inni greu model gofal cenedlaethol a fydd yn helpu i ryddhau pobl o'r ysbyty ac yn eu helpu i wella gartref mor gyflym a diogel ag y bo modd. Bydd hyn hefyd yn helpu i gynyddu capasiti mewn lleoliadau iechyd a gofal, gan sicrhau y gall y bobl hynny sydd angen gofal acíwt gael gafael arno mewn modd diogel ac amserol.

Er mwyn adeiladu ar y gwasanaethau a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, bydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i archwilio modelau gofal newydd er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau Gartref o'r Ysbyty a gweithredu'r fframwaith D2RA. Mae hyn yn cyfeirio at y gofal a'r cymorth a roddir i gleifion er mwyn eu galluogi i adael yr ysbyty i adfer, a'r asesiad a gynhelir arnynt wedyn, gyda'r nod o gyfyngu ar yr amser dianghenraid a dreulir yn yr ysbyty ynghyd â gwella'r canlyniadau.

Gall hyn gynnwys y canlynol:

- Modelau gofal sy'n cynnig ymatebion a llwybrau integredig er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd gartref o'r ysbyty yn ddi-oed ac yn ddiogel, ac osgoi mynd yn ôl i'r ysbyty.
- Modelau gofal sy'n helpu pobl i adfer yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty ac sy'n eu gwneud yn llai dibynnol ar ofal hirdymor, trwy gyfrwng gwasanaethau ailalluogi ac ailsefydlu cymunedol, er mwyn lleihau derbyniadau i'r ysbyty a gwneud pobl yn llai dibynnol ar ofal hirdymor

## Atebion seiliedig ar lety

Mae datblygu llety a all gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol a diwallu eu hanghenion gofal a chymorth mewn amgylchedd domestig neu breswyl yn rhan bwysig o'n system iechyd a gofal. Wrth gyflawni'r model gofal hwn, bydd yn hanfodol cysylltu â darparwyr tai, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, darparwyr gofal preswyl a


phartneriaid allweddol eraill, yn cynnwys partneriaid a all gynorthwyo i addasu cartrefi.

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried cyfleoedd cyfalaf ochr yn ochr â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol er mwyn sicrhau y gellir cydweddu cynlluniau refeniw a chyfalaf a gwneud yn fawr o'r buddsoddiad.

Gall enghreifftiau o wasanaethau a gynorthwyir o dan y model hwn gynnwys:

- Datblygu cyfleusterau byw'n annibynnol gyda gofal a chymorth integredig cofleidiol h.y. gofal ychwanegol/byw â chymorth
- Cyfleusterau ar gyfer cymorth therapiwtig a gofal canolradd byrdymor
- Atebion llety i blant ag anghenion cymhleth lefel uchel ac anghenion ymddygiadol ac emosiynol fel y gellir darparu gofal a chymorth integredig yn nes at y cartref
- Addasu cartrefi

## Dulliau Galluogi




Er mwyn mynd ati'n effeithiol i ddarparu'r modelau gofal a ddatblygir gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried a defnyddio'r dulliau galluogi allweddol hyn (gweler isod). Trwy ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol penodedig yn y modd mwyaf effeithiol, bydd modd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cydweddu eu hadnoddau a'u galluoedd yn strategol er mwyn creu systemau a gwasanaethau integredig a fydd yn ategu canlyniadau gwell i grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth. Dylid ystyried a chynnwys y dulliau galluogi canlynol wrth gynllunio pob model gofal.

## Cynllunio a chomisiynu integredig

Er mwyn llwyddo i ddatblygu a phrif ffrydio ein modelau gofal integredig cenedlaethol, bydd yn hanfodol mynd ati'n effeithiol i gynllunio ar lefel y system gyfan a/neu gomisiynu ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a thai, a hefyd gyda phartneriaid cyflawni ehangach.

Wrth gynllunio'r modelau gofal, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddilyn y cylch comisiynu tra chyfarwydd, gan sicrhau eu bod yn dilyn y pedwar cam canlynol:

- **Dadansoddi** – sicrhau dealltwriaeth drylwyr o anghenion y boblogaeth neu'r gymuned, ynghyd â dealltwriaeth fanwl o'r adnoddau a'r asedau sydd ar gael i gefnogi'r anghenion hynny. Hefyd, meincnodi oddi mewn ac oddi allan i Gymru er mwyn ategu dysgu a deall yr hyn a weithiodd mewn mannau eraill.
- **Cynllunio** – pan fo modd, sicrhau yr eir ati'n ffyddlon i fabwysiadu dulliau seiliedig ar dystiolaeth, fel y gellir cynllunio a llunio'r ymatebion gorau i ddiwallu anghenion. Defnyddio dull 'o ddechrau'r broses i'w diwedd' wrth lunio'r model gofal, gan wneud yn fawr o gyfleoedd i gydgynhyrchu â defnyddwyr a darparwyr gwasanaethau.
- **Gwneud** – sicrhau yr ystyrir amrywiaeth o opsiynau cyflawni, fel y bydd modd esgor ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau. Rhoi egwyddorion rheoli prosiectau ar waith er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaethau mewn modd effeithiol ac amserol.
- **Adolygu** – defnyddio'r fethodoleg 'Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau' i sicrhau y rhoddir prosesau monitro ac adolygu parhaus ar waith er mwyn deall yr effaith ar lesiant pobl ac ar drawsnewid y gwasanaeth, a hefyd er mwyn llywio gwelliannau yn y gwasanaeth.




Wrth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu a darparu'r modelau gofal cenedlaethol, bydd angen iddynt feddwl am y dull gorau o sicrhau a rheoli adnoddau a chronfeydd cyfatebol. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried yr hyn y gall cronfeydd cyfun ei wneud o ran helpu i reoli'r gwaith o gydgomisiynu'r modelau a

buddsoddi'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ochr yn ochr â chronfeydd cyfatebol gan bartneriaid. Er nad yw'r canllawiau hyn yn argymell trefniadau ar gyfer cronfeydd cyfun o'r cychwyn cyntaf, bydd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gronfa waddol ymhen pum mlynedd yn seiliedig ar egwyddorion 'trefniant cronfa gyfun', gyda Llywodraeth Cymru yn bartner cyfrannu allweddol.

Gellir cael rhagor o gyngor ynglŷn â datblygu cronfeydd cyfun ym mhecyn cymorth ADSS Cymru.

## Technoleg ac atebion digidol

Mae technoleg yn fwyfwy pwysig bellach wrth helpu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, aros yn iach a byw'n annibynnol. Daeth hyn yn fwyfwy amlwg yn ystod y pandemig Covid 19, lle bu'n rhaid i unigolion, cymunedau a darparwyr gwasanaethau feddwl yn wahanol am y modd roeddynt yn cefnogi llesiant pobl. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried yr hyn y gall technoleg ei gynnig wrth ddatblygu a darparu'r chwe model gofal integredig cenedlaethol, yn cynnwys:

- Apiau hunanofal
- Atebion yn ymwneud â chofnodi digidol
- Technoleg yn y cartref a chartrefi CLYFAR
- Gwybodaeth, cyngor ac ymgynghoriadau rhithwir

## Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol

Mae gan fodelau gwerth cymdeithasol rôl hollbwysig o ran cynorthwyo gwasanaethau gofal a chymorth ataliol, a leolir yn lleol neu yn y gymuned. Mae dulliau gwerth cymdeithasol yn hyrwyddo parch, cydweithio ac ymdrech ar y cyd er mwyn sicrhau canlyniadau llesiant i unigolion a chymunedau, ac mae'n golygu gweithio'n rhagweithiol mewn ffordd a fydd yn cynnig llais a rheolaeth, ac yn gwella llesiant dinasyddion.

Mae gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyletswydd statudol i hyrwyddo'r Sector Gwerth Cymdeithasol (fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant). Mae sefydliadau'r sector hwn yn bartneriaid allweddol yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol, a daeth hyn yn fwyfwy amlwg yn ystod y pandemig Covid 19.

Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi **o leiaf 20%** o'r dyraniad a gânt gan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng sefydliadau'r sector gwerth cymdeithasol. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gysylltu'n agos â'u fforymau gwerth cymdeithasol er mwyn sicrhau y gellir cynnwys y sector ehangach wrth gynllunio, llunio a darparu'r modelau gofal hyn.

## Hybiau cymunedol integredig

Wrth lunio’r modelau gofal integredig cenedlaethol, mae hi’n bwysig i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y gall pobl gael gafael ar yr wybodaeth, y cyngor a’r gofal angenrheidiol. I lawer o bobl, bydd cael mynediad at gymorth yn eu cartrefi eu hunain yn hollbwysig; ond i eraill, yn cynnwys gofalwyr, efallai y bydd hybiau lleol, canolfannau neu fannau cymunedol sy’n cynnig amrywiaeth ehangach o gymorth integredig, yn ateb da.


Mae rhaglen gyfalaf ar wahân wrthi’n cael ei datblygu er mwyn cynorthwyo i ddatblygu’r elfennau ffisegol sy’n perthyn i hybiau cymunedol a chanolfannau iechyd a gofal integredig, a bydd canllawiau pellach yn dilyn maes o law. Fodd bynnag, fel yn achos y model ‘atebion seiliedig ar lety’ uchod, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y gallant gydweddu eu buddsoddiad refeniw a chyfalaf er mwyn gwneud yn fawr o’r adnoddau a chynnig atebion integredig lleol i bobl a chymunedau.

## Datblygu ac integreiddio’r gweithlu

Mae gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol integredig, medrus a chadarn yn hollbwysig i lwyddiant y modelau gofal integredig cenedlaethol. Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu a chyflawni cynlluniau a fydd yn cynorthwyo i greu gweithlu medrus ac integredig – gweithlu a fydd yn barod i addasu, yn hyblyg ac yn gadarn.

Bydd angen iddynt greu cynlluniau ac amodau a fydd yn hyrwyddo’r system, y broses, yr ymarfer a’r newid diwylliannol angenrheidiol er mwyn sicrhau y gallwn gynnig gwasanaethau gwirioneddol integredig a di-dor i bobl Cymru.

## Grwpiau Poblogaeth â Blaenoriaeth




Wrth lunio pob model gofal integredig cenedlaethol, rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y byddant yn diwallu anghenion penodol y grwpiau poblogaeth uchod. Yn anochel, bydd ambell fodel gofal yn cynorthwyo rhai grwpiau poblogaeth yn fwy nag eraill, ond dylid datblygu rhan helaethaf y model mewn modd a fydd yn sicrhau y gall ddiwallu anghenion y grwpiau poblogaeth hyn i gyd.

Cafodd y grwpiau poblogaeth hyn eu pennu'n grwpiau blaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau integredig yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fodd bynnag, cafodd y grŵp poblogaeth olaf, sef pobl ag anghenion llesiant emosiynol ac iechyd meddwl, ei ychwanegu at y rhestr ar sail ein profiadau o ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid a'r angen cynyddol yn y maes hwn am ymateb integredig mewn perthynas â gofal a chymorth.

Er mai'r grwpiau hyn yw'r grwpiau blaenoriaeth y cynigiwn wasanaethau gofal a chymorth integredig iddynt, cydnabyddir bod grwpiau poblogaeth 'agored i niwed' eraill i'w cael ac y gallent hwythau hefyd elwa ar y modelau gofal hyn. Er enghraifft, efallai y byddai pobl ddigartref yn elwa ar gymorth gan hybiau cymunedol. Ni chafodd y grwpiau hyn eu rhestru er mwyn eithrio grwpiau eraill mewn angen a allai elwa ar y modelau gofal hyn, ond dyma'r prif grwpiau y dylid cynllunio a darparu'r modelau gofal ar eu cyfer.

Dylid gwneud yn fawr o bob cyfle i gynyddu 'arlwy gweithredol' y gwasanaethau integredig trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr holl grwpiau poblogaeth hyn.

Mae adran ganlynol y canllawiau yn cyflwyno rhagor o fanylion am bob grŵp poblogaeth â blaenoriaeth.

## Pobl hŷn gan gynnwys pobl â dementia

Dylid cynorthwyo pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia, i ddal gafael ar eu hannibyniaeth ac aros gartref, gan osgoi unrhyw arhosiad diangen yn yr ysbyty.

Dylid canolbwyntio'n arbennig ar wasanaethau ataliol a gwasanaethau gartref o'r ysbyty er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd diogel ac amserol, gan amddiffyn a chynnal hawliau pobl hŷn a sicrhau na fyddant yn teimlo unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol. Mae mynediad at wasanaethau galluogi ac ailsefydlu yn hanfodol o ran cynnal sgiliau a galluoedd pobl ac atal dibyniaeth rhy gynnar ar fodelau gofal anablol.

Ymhellach, gall y gweithgarwch gynorthwyo i wireddu ein gweledigaeth o ran creu Cymru sydd o blaid pobl hŷn, Cymru sy'n cynnal hawliau pobl hŷn ac sy'n hyrwyddo undod rhwng y cenedlaethau, fel y nodir yn *Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio*.

Ar 14 Chwefror 2018 cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia (2018-22). Ar ôl ei lansio, gofynnwyd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddatblygu gwasanaethau i ymdrin ag unrhyw fylchau, yn unol â'r cynllun dementia. Gan adeiladu ar hyn, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ystyried sut y gall chwe model gofal newydd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gynorthwyo pobl hŷn, yn cynnwys pobl â dementia.

Gan gydnabod bod y pandemig a'r ymateb gofynnol wedi effeithio ar bobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr, ym mis Medi 2021 cyhoeddwyd dogfen i ategu'r

Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, ac mae hon yn nodi'r blaenoriaethau cyfredol o ran gweithredu.

Er y bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia yn dod i ben yn 2022, bydd gwaith gwerthuso parhaus yn cael ei wneud er mwyn llywio cynnwys unrhyw gynlluniau gweithredu ar gyfer y dyfodol ac unrhyw ganlyniadau dilynol. Felly, dylai'r rhaglenni a ddatblygir fod yn hyblyg er mwyn iddynt allu ymateb i unrhyw newidiadau perthnasol.

## Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

Yn dilyn y newidiadau a gyflwynwyd i'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 9 o'r Ddeddf, mae'r diffiniad o blant ag anghenion cymhleth bellach yn cynnwys:

- plant ag anableddau a/neu salwch
- plant â phrofiad o fod mewn gofal
- plant sydd angen gofal a chymorth
- plant sydd ar gyrion gofal
- plant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol

Mae cynorthwyo teuluoedd i gael gofal a chymorth di-dor a all eu helpu i gyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt hwy a'u plentyn yn agwedd bwysig y dylid ei hymgorffori wrth gynllunio'r modelau gofal.

Sylweddolwn mai 'plant' yw plant yn gyntaf ac yn bennaf, ond efallai hefyd fod ganddynt anghenion ychwanegol sy'n golygu eu bod hefyd yn rhan o'r grwpiau blaenoriaeth 'pob oedran' eraill, er enghraifft pobl ag anableddau dysgu, pobl ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl a gofalwyr ifanc.

Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn cynllunio modelau gofal integredig cenedlaethol mewn modd a fydd yn diwallu anghenion penodol y plant a'r bobl ifanc hynny a restrir uchod. Disgwylir gwariant cenedlaethol o £20m o leiaf tuag at blant ar gyrion gofal/plant â phrofiad o ofal.

Rhaid i'r rhanbarthau ddefnyddio Fframwaith NYTH/NEST i ddatblygu cymorth cynhwysfawr i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol, anghenion iechyd meddwl ac anghenion llesiant, a bydd y cynnydd a wneir ym mhob rhanbarth yng Nghymru yn cael ei fonitro'n ofalus.

Ymhellach, dylai'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gynorthwyo teuluoedd gyda chymorth yn ymwneud â gwasanaethau asesu, trin ac adsefydlu niwroddatblygiadol, ynghyd â chynorthwyo plant a phobl ifanc wrth iddynt bontio i fod yn oedolion.

## Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroamrywiol a niwroddatblygiadol

Dylai'r gronfa adeiladu ar egwyddorion Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau (2018-21), ynghyd â lleihau anghydraddoldeb iechyd, cynyddu integreiddio cymunedol a gwella systemau cynllunio ac ariannu. Cydnabyddir bod Covid 19 wedi

effeithio ar bobl ag anableddau dysgu. Dylai’r cyllid gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu ac yr effeithiodd y pandemig arnynt trwy gomisiynu gwasanaethau newydd, arloesol ac integredig er mwyn cynorthwyo’r rhan hon o’r boblogaeth, yn unol ag amcanion y rhaglen Gwella Bywydau.

## Gofalwyr di-dâl

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel unigolyn o unrhyw oedran, boed yn blentyn neu’n oedolyn, sy’n rhoi gofal di-dâl i oedolyn neu i blentyn anabl. Gall y sawl y rhoddir gofal iddo fod yn aelod teuluol neu’n gyfaill sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ag ymdopi heb gymorth gan y gofalwr.

Mae gofalwyr di-dâl yn hollbwysig i’n system iechyd a gofal cymdeithasol, ac maent yn gofalu am rai o’n dinasyddion mwyaf agored i niwed, gan eu helpu i aros gartref yn iach. Fodd bynnag, gall y gwaith sydd ynghlwm wrth fod yn ofalwr di-dâl fod yn drwm a llafurus, ac mae’n hanfodol i ofalwyr gael cymorth er mwyn sicrhau canlyniadau iechyd a llesiant da iddynt hwy eu hunain.

Er bod modd i ofalwyr di-dâl elwa’n ‘anuniongyrchol’ ar y cymorth a roddir i’r unigolion y gofalant amdanynt, mae’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn nodi bod ganddynt hawl i gael asesu a diwallu eu hanghenion eu hunain. Am y rheswm hwnnw, mae hi’n hollbwysig i’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gael ei buddsoddi mewn modd a fydd yn sicrhau y gall gofalwyr di-dâl gael cymorth uniongyrchol a fydd yn diwallu eu hanghenion nhw eu hunain yn ogystal ag unrhyw fanteision anuniongyrchol a gânt yn sgil y cymorth a roddir i’r unigolion y gofalant amdanynt.

Dylai’r gweithgarwch a ariennir trwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gynorthwyo gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol a chyflawni’r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Mae’r strategaeth yn nodi pedair blaenoriaeth genedlaethol ar eu newydd wedd ar gyfer gofalwyr di-dâl, sef:

1. Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl
2. Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
3. Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
4. Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

**Yn 2021/22, disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 5% o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn uniongyrchol yn y gwaith o gynorthwyo gofalwyr di-dâl. Ni fydd hyn yn disodli’r gofynion statudol a osodir ar Awdurdodau Lleol i gynorthwyo gofalwyr; yn hytrach, dylai ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig er mwyn diwallu anghenion iechyd a llesiant gofalwyr di-dâl.**

**Yn ychwanegol at y cymorth uniongyrchol a bennir ar gyfer gofalwyr di-dâl, bydd £1m o gymorth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr yn cael ei glustnodi’n benodol ar gyfer ariannu gweithgarwch i wella’r modd y cynhwysir gofalwyr di-dâl mewn prosesau rhyddhau cleifion o’r ysbyty.**

## Pobl ag anghenion iechyd a llesiant meddyliol emosiynol

Yn awr yn fwy nag erioed o'r blaen, mae cefnogi iechyd a llesiant emosiynol pobl yn hollbwysig er mwyn cadw'r gymdeithas yn iach ac atal anghenion iechyd a gofal cymdeithasol rhag gwaethygu. Yn sgil effeithiau'r pandemig Covid-19, sylweddolir bod hyn yn fwyfwy pwysig a bod nifer cynyddol o bobl o bob oedran, yn cynnwys plant a phobl ifanc, angen cymorth ag anghenion iechyd a llesiant emosiynol. Dylid defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i ddatblygu modelau gofal cymunedol a fydd yn ymyrryd yn fuan ac yn atal iechyd a llesiant meddyliol emosiynol gwael rhag gwaethygu.

Yn achos plant a phobl ifanc, dylid defnyddio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gynorthwyo i weithredu fframwaith NYTH/NEST, a fydd yn cynnig sylfaen gadarn y gellir ei defnyddio i gynllunio modelau gofal ar gyfer hyrwyddo iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol da.


Mae Byrddau Iechyd Lleol eisoes yn cael cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl, ac felly ni ddylai'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ddisodli'r arian hwn; yn hytrach, dylid buddsoddi'r arian mewn modelau gofal integredig a fydd yn ategu gwasanaethau iechyd meddwl, yn gyntaf trwy atal iechyd meddwl gwael rhag datblygu, ac yn ail trwy roi cymorth yn y gymuned i bobl ag anghenion emosiynol lefel is.

## Trefniadau cyllido

Nod y gronfa newydd yw arddangos o'r cychwyn cyntaf ddull mwy cytbwys o fuddsoddi mewn integreiddio a thrawsnewid. Er mwyn sicrhau y gall rhanbarthau, yn cynnwys partneriaid statudol a'r trydydd sector, ymateb yn gyflym i flaenoriaethau, ynghyd â darparu gwasanaethau ar sail y blaenoriaethau hyn, bydd y cyllid yn cael ei ddyrannu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn hytrach na chael ei hawlio'n ôl-weithredol.

Yn hollbwysig, dylid nodi bod y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn rhaglen pum mlynedd. Mae'r datganiad clir hwn yn cael gwared ag unrhyw bryder neu ganfyddiad y bydd y cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ar fyr rybudd.

*Ffig 2 – Strwythur y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol*




Cafodd strwythur cyllido'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler ffig 2 uchod) ei gyd-lunio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn annog ymhellach y gwaith o brofi, ymgorffori a phrif ffrydio modelau gofal integredig cenedlaethol. Disgwylir i bartneriaid ddarparu arian cyfatebol o flwyddyn un; disgwylir 10% ar gyfer cyflymu newid a 30% ar gyfer ymgorffori modelau.

Ochr yn ochr â chyllid hirdymor, mae'r cymorth hwn a gaiff ei leihau'n raddol yn nodwedd allweddol ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol newydd. Y diben yw sicrhau y bydd modelau gofal cenedlaethol yn cael eu hymgorffori a'u prif ffrydio mewn gwasanaethau craidd trwy ddenu cymorth gan gyllidebau craidd sefydliadau statudol. Mae datganiad cyllideb diweddar Llywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf yn sôn am gynnydd sylweddol yng nghyllidebau cyrff statudol.

Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn dal gafael ar gyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar ran y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ond ni fyddant yn gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Rhaid rhoi dull partneriaeth ar waith ledled y rhanbarth wrth wneud penderfyniadau, a disgwyliwn i'r holl bartneriaid weithio gyda'i gilydd mewn modd cydlynus a chydweithredol wrth gynllunio i fuddsoddi arian mewn prosiectau. Rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio a chytuno ar **femorandwm cyd-ddealltwriaeth** fel y gellir pennu'n glir y trefniadau llywodraethiant a'r trefniadau atebolrwydd a fydd ar waith ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli buddsoddiad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Rhaid ystyried y gwaith o gynllunio a buddsoddi'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yng nghyd-destun ehangach Cyllideb Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, sy'n gyfanswm o £9bn+. Fe allai ac fe ddylai'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol fod yn ddull cyflawni y dylid cydweddu ag ef, a dylai ddenu cyllid arall – boed yn gyllid craidd neu'n gyllid grant – er mwyn prif ffrydio newidiadau yn y system. Er na ellir defnyddio grantiau Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau a ariennir o dan y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, fe ellir ac fe ddylid eu cydweddu i gefnogi twf ac ychwanegu gwerth.

Mae'r dyraniadau cenedlaethol ar gyfer 2022-23 fel a ganlyn:

| BPR | Cyfanswm cyfraniad Llywodraeth Cymru | Y Gronfa Genedlaethol wedi'i Chlustnodi' | | | | | Y Gronfa Seilwaith Rhanbarthol (75% hyd at £750,000) | Y Gronfa Cyflymu Newid 90% gan Lywodraeth Cymru | Y Gronfa Ymgorfforri Modelau Cyflawni Cenedlaethol 70% gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | Dementia | Dementia - Asesu'r Cof | Gofalwyr di-dâl (Rhyddhau o'r ysbyty) | Cyfanswm Cenedlaethol | | | |
| Cyfanswm | £144,657,000.00 | £ 2,977,000 | £ 8,999,000 | £ 3,001,000 | £ 1,000,000 | £ 15,977,000 | £ 5,250,000 | £ 37,029,000.00 | £ 86,401,000.00 |

## Y Strwythur Cyllido a buddsoddiadau cymwys

Mae pedwar maes arbennig yn perthyn i fodel cyllido'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (gweler ffig 2 uchod), ac mae gan bob maes ei ddisgwyliadau ei hun o ran cymhwystra ac arian cyfatebol. Bydd yr adran nesaf yn cyflwyno rhagor o fanylion am gymhwystra mewn perthynas â phob maes.

## Y Gronfa Seilwaith Rhanbarthol

Mae hi'n hanfodol i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fod â threfniadau digonol o ran adnoddau a seilwaith i gyflawni yn erbyn y cyd-ddisgwyliadau a'r cyd-ddyletswyddau a roddir arnynt o dan ddyletswyddau Rhan 9 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae'r adran hon yn nodi disgwyliad buddsoddi sylfaenol ar gyfer trefniadau seilwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a bydd yn rhaid sicrhau arian cyfatebol gan bartneriaid statudol (mae gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod digon o adnoddau i'w cael i ategu eu gwaith rhanbarthol).

O dan y canllawiau hyn, gall y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol roi hyd at £750,000 (cyfradd ymyrryd o hyd at 75%) tuag at gostau seilwaith Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a rhaid i bartneriaid statudol ddarparu arian cyfatebol trwy fuddsoddi £250,000 (cyfradd ymyrryd o 25% o leiaf).

Os na fydd y rhanbarth angen y dyraniad £750,000 yn llawn, bydd y gweddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau cyflymu a phrosiectau ymgorffori cenedlaethol.

**Nid yw'r costau seilwaith hyn yn cynnwys costau rheoli rhaglenni na chostau cyflawni sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol neu gronfeydd eraill. Dylid cymryd y costau rhaglenni hyn yn gymesur o'r gronfa gyflymu neu'r gronfa ymgorffori.**

Fan leiaf, disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod eu trefniadau seilwaith rhanbarthol yn cynnwys y rolau a'r adnoddau craidd canlynol:

- Galluogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fodloni dyletswyddau Rhan 9 – (datblygu a chefnogi, craffu a rheoli perfformiad, datblygu a goruchwylio rhaglen thematig, Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, Cynlluniau Ardal ac Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad)

- Rheoli perfformiad a gwybodaeth busnes integredig
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu (gan gynnwys cymorth pwrpasol i ofalwyr, cynnwys dinasyddion, y trydydd sector a darparwyr yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)
- Datblygu a goruchwylio Cyllideb Gyfun
- Hwyluso'r gwaith o gydgomisiynu neu gydgynllunio gwasanaethau
- Hyrwyddo'r sector gwerth cymdeithasol a hwyluso'r fforwm gwerth cymdeithasol
- Rheolaeth ariannol (heb fod yn gysylltiedig â'r rhaglen)
- Datblygu Gweithlu Integredig i ategu modelau gofal integredig

Efallai y bydd rhai rhanbarthau'n gweld y bydd angen tîm craidd llawer mwy er mwyn i bethau redeg yn effeithiol. Diben hyn yw sicrhau y caiff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol adnoddau cyson ledled Cymru, ac mae'n adeiladu ar ddyraniad blaenorol a roddwyd i Awdurdodau Lleol ac a ddatblygodd yn Grant Cynnal Refeniw.

## Cronfa Genedlaethol wedi'i Chlustnodi

O dan y rhan hon o'r gronfa dyrennir cyllid 100% i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn iddynt gyflawni yn erbyn ymrwymiadau gweinidogol cenedlaethol, ac ni fydd angen darparu arian cyfatebol. Caiff y dyraniadau eu seilio ar fformiwla'r Bwrdd Iechyd Lleol ac ni fydd yn cael ei dapro. Rhoddir y dyraniadau yn ystod y flwyddyn y derbynnir ac y cymeradwyir y cynigion buddsoddi.

Dyma'r lefelau buddsoddi isaf yn y blaenoriaethau Gweinidogol hyn, ac felly gellir ychwanegu cronfeydd ychwanegol y Gronfa Integredig Rhanbarthol er mwyn datblygu'r modelau gofal hyn ymhellach. Fodd bynnag, bydd unrhyw gronfeydd ychwanegol a drosglwyddir o rannau eraill o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i gynyddu buddsoddiad yn y maes hwn yn cael eu tapro, a bydd angen sicrhau arian cyfatebol yn unol â'r canllawiau.

Mae prosiectau a ddaw o fewn cwmpas y rhan hon o'r gronfa, ac a ariennir yn llwyr hyd ddiwedd y gronfa, yn cynnwys:

- Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig – Bydd y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cael cymorth trwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a bydd y cyllid yn cael ei glustnodi. Ni ellir defnyddio cyllid a ddyrennir ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig at unrhyw ddiben arall. Gall rhanbarthau drosglwyddo arian ychwanegol i'r dyraniad hwn er mwyn buddsoddi mwy yn y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru a'r Arweinydd Cenedlaethol ar Anhwylderau Sbectrwm Awtistig.
- Prosiectau dementia, a chefnogi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a'i ddogfen ategol. Dylai'r prosiectau gynorthwyo hefyd i roi'r Safonau Gofal Dementia ar waith. Ni ellir defnyddio cyllid a ddyrennir ar gyfer y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia at unrhyw ddiben arall.

- £1m o gyllid uniongyrchol i gynorthwyo gofalwyr, wedi'i ddyrannu'n benodol ar gyfer ariannu gweithgarwch i wella'r modd y cynhwysir gofalwyr di-dâl mewn prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

## Y Gronfa Cyflymu Newid

Pwrpas y cyllid cyflymu yw datblygu a phrofi modelau gofal newydd. Dylid defnyddio'r arian ar gyfer syniadau newydd neu brosiectau nad ydynt wedi symud y tu hwnt i gysyniad cychwynnol ac y mae angen eu datblygu a'u profi ymhellach. Nid yw'r rhan hon o'r gronfa yn berthnasol i fodelau sydd wedi'u datblygu a'u profi eisoes o dan y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Trawsnewid neu unrhyw ffrwd cyllido arall. Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhai prosiectau, o bosibl, wedi cychwyn o dan ffrydiau cyllido blaenorol ac nad ydynt wedi cwblhau eu cyfnod profi eto. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y senarios hyn oherwydd cyflwynir cyfiawnhad yn y cynnig buddsoddi.

Gellir treialu/profi'r prosiectau hyn ar lefel leol, is-ranbarthol neu ranbarthol, gyda'r uchelgais o'u hymgorffori ar raddfa ehangach.

Fel canllaw, ni ddylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyrannu mwy na 30% o ddyraniad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i fodelau gofal yn y maes hwn. Fodd bynnag, gellir trafod hyblygrwydd yn hyn o beth fesul achos gyda phob rhanbarth, fel bo'r angen, pan fo cyfiawnhad clir i'w gael.

Bydd prosiectau a ariennir o dan y rhan hon o'r gronfa yn cael cyfradd ymyrryd o 90% gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir i bartneriaid statudol ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y 10% sy'n weddill.

Gall prosiectau a ariennir o dan y rhan hon o'r gronfa ddisgwyl derbyn hyd at 2 flynedd o gyllid, a rhaid sicrhau bod trefniadau llywodraethiant clir ar waith fel y gellir mesur yr effaith a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Ar ôl cynnal gwerthusiad trylwyr a chyflwyno tystiolaeth glir ynglŷn â'r effaith a'r llwyddiant, gellir ystyried symud y modelau gofal hyn i'r gronfa ymgorffori newid. Yn achos prosiectau y bernir eu bod yn aflwyddiannus neu'n amhriodol ar gyfer buddsoddiad pellach gan y Gronfa Integredig Rhanbarthol, dylid eu rheoli mewn modd a fydd yn eu galluogi i adael y gronfa'n ddiogel (eu datgomisiynu, eu prif ffrydio, eu hariannu mewn ffordd arall).

**Gellir defnyddio'r dyraniad hwn i ddarparu cyllid 100% ar gyfer costau rheoli rhaglenni cymesur sy'n gysylltiedig â phrosiectau a ariennir trwy'r Gronfa Gyflymu.**

## Y Gronfa Ymgorffori Modelau Cyflawni Cenedlaethol

Mae'r rhan hon o'r gronfa ar gyfer prosiectau a brofwyd ac y gwerthuswyd eu bod yn esgor ar effaith dda, lle mae'r holl bartneriaid o'r farn eu bod yn diwallu anghenion rhanbarthol a'u bod yn barod i'w hymgorffori fel gwasanaeth allweddol i ategu'r broses o ymgorffori modelau gofal cenedlaethol.

Yn achos yr holl brosiectau a symudir i'r gronfa hon, disgwylir iddynt fod ag achos busnes clir mewn perthynas â chynaliadwyedd, disgwylir iddynt bennu manteision a dulliau mesur perfformiad clir o'r cychwyn cyntaf, a disgwylir iddynt fod â threfniadau gwerthuso ar waith er mwyn dangos yr effaith. Rhagwelir y bydd nifer o brosiectau neu wasanaethau a ddatblygwyd o dan y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid yn symud yn syth i'r gronfa hon o fis Ebrill 2022.

Bydd modd i brosiectau o dan y gronfa hon gael cyllid am hyd at 3 blynedd cyn cael eu prif ffrydio'n llwyr. Yn achos prosiectau y bernir eu bod yn aflwyddiannus neu'n amhriodol i'w prif ffrydio, dylid eu rheoli mewn modd a fydd yn eu galluogi i adael y gronfa'n ddiogel (eu datgomisiynu, eu prif ffrydio, eu hariannu mewn ffordd arall). Fodd bynnag, disgwylir i'r prosesau gwerthuso ac adolygu parhaus a'r gwaith cynllunio uwch mewn perthynas â chynaliadwyedd sicrhau y bydd modd prif ffrydio'r rhan fwyaf o'r prosiectau a ddaw o dan y gronfa hon. Ar ôl cynnal gwerthusiad trylwyr a chyflwyno tystiolaeth glir ynglŷn â'r effaith a'r llwyddiant, gellir ystyried symud y modelau gofal hyn i'r Gronfa Prif Ffrydio Integredig.

Bydd prosiectau a ariennir o dan y rhan hon yn cael eu mabwysiadu ledled y rhanbarth, neu ymhellach. (Efallai y gellir eu hymgorffori ar lefel is-ranbarthol mewn amgylchiadau eithriadol, er mwyn ymateb i angen lleol.)

Fel canllaw, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyrannu 70% o ddyraniad y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i fodelau gofal yn y maes hwn. Fodd bynnag, gellir trafod hyblygrwydd yn hyn o beth fesul achos gyda phob rhanbarth, fel bo'r angen, pan fo cyfiawnhad clir i'w gael.

Bydd prosiectau a ariennir o dan y rhan hon o'r gronfa yn cael cyfradd ymyrryd o 70% gan Lywodraeth Cymru, a disgwylir i bartneriaid statudol ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y 30% sy'n weddill.

**Gellir defnyddio'r dyraniad hwn i ddarparu cyllid 100% ar gyfer costau rheoli rhaglenni cymesur sy'n gysylltiedig â phrosiectau a ariennir trwy'r Gronfa Ymgorffori.**

## Y Gronfa Prif Ffrydio Integredig 50/50

Ar ôl i brosiect gyrraedd diwedd ei gyfnod cyllido tair blynedd o dan y gronfa ymgorffori, dylai fod yn barod wedyn i gael ei brif ffrydio. Fodd bynnag, os bydd y partneriaid yn cytuno bod yr amgylchiadau'n iawn ar gyfer prif ffrydio prosiectau'n gynnar, gellir rhoi prosiectau o'r fath ar drywydd cyflym a gallant gychwyn ar y cam hwn yn ystod unrhyw flwyddyn.

Dylai prosiectau o dan y gronfa hon fod yn fodelau gofal sydd wedi hen ennill eu plwyf ac a roddwyd ar waith ar draws yr holl ranbarth neu ymhellach.

Rhaid i'r partneriaid gytuno ar adnoddau ac ymrwymo adnoddau er mwyn sicrhau y bydd y prosiect neu'r model gofal yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Bydd y gronfa hon yn cael ei chyflwyno ar ffurf cyllid cyfun rheolaidd, gyda'r partneriaid yn cyfrannu 50% a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'r 50% sy'n weddill.

Os bydd y partneriaid yn dal i ddefnyddio adnoddau cyfatebol anariannol yn ystod y cam hwn, rhaid i'r adnoddau hyn gael eu clustnodi a'u hystyried ar wahân i gefnogi darpariaeth gynaliadwy a sicrhau bod unrhyw dapro rhanbarthol wedi'i wireddu.

## Adnoddau cyfatebol

Mae adnoddau cyfatebol yn un o egwyddorion allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, a'u bwriad yw cynorthwyo i ysgogi newid cynaliadwy ar draws ein system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn sgil yr hyn a ddysgwyd ar sail cronfeydd newid blaenorol, yn y rhan fwyaf o achosion buddsoddwyd mewn gweithgarwch newid ar ffurf haen ychwanegol 'ar ben' y system bresennol yn hytrach na disodli systemau a gwasanaethau llai effeithiol.

Er mwyn inni allu cyflwyno newid cynaliadwy ac ymgorffori systemau a gwasanaethau integredig newydd, dylai adnoddau craidd gefnogi hyn. Mewn ambell achos, efallai y bydd hyn yn golygu rhoi'r gorau i un dull o weithio er mwyn ei ddisodli â dull newydd.

Er y cydnabyddir bod adnoddau'n gyfyngedig, mae cyllideb ddiweddar Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r arian yn sylweddol ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, caiff adnoddau cyfatebol eu sefydlu fel agwedd allweddol ar y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Fodd bynnag, fe fydd modd cynnig rhywfaint o hyblygrwydd dros oes y rhaglen (ceir rhagor o fanylion isod).

Gall adnoddau cyfatebol gynnwys dwy elfen – arian ac adnoddau ehangach. Mae arian cyfatebol yn cynnwys cyfraniadau ariannol uniongyrchol gan gronfeydd craidd neu ffynonellau grantiau eraill ac eithrio grantiau Llywodraeth Cymru. Mae adnoddau ehangach yn cynnwys amser staff, amser gwirfoddolwyr, a defnyddio safleoedd a/neu gyfleusterau.

Bydd yr adnoddau cyfatebol a ddaw ochr yn ochr â'r rhaglen hon yn cael eu cydweddu â'r modelau gofal integredig cenedlaethol, a byddant yn cynorthwyo'n uniongyrchol i ddarparu'r modelau hyn. Er mwyn sicrhau y gallwn fynd ati ar y cyd i gyflawni ein nod o gyflwyno newid ac ymgorffori ffyrdd newydd o weithio, rhaid cael gafael ar arian cyfatebol mewn modd cymesur gan bob partner statudol.

Bydd yr adnoddau cyfatebol yn fuddsoddiad cynaliadwy a fydd yn deillio o gronfeydd craidd neu adnoddau ehangach y gellir eu defnyddio i ddisodli cyllid Llywodraeth Cymru wrth i hwnnw dapro dros oes y rhaglen, h.y. 10% ym mlynyddoedd un neu ddau rhaglenni neu fodelau gofal newydd, a 30% ym mlynyddoedd tri i bump modelau prawf sy'n barod i'w hymgorffori. Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno cynlluniau clir i nodi'r ymrwymiad i'r model cyllido yn ystod y rhaglen er mwyn gwireddu'r elfen gynaliadwyedd.

Un o egwyddorion allweddol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yw y bydd yr holl bartneriaid yn ymrwymo i gynyddu eu harian cyfatebol amgen i 50%, gyda'r nod o gael cyfradd ymyrryd o 50/50 rhwng Llywodraeth Cymru a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn diwedd y pum mlynedd. Yn amodol ar farn y llywodraeth newydd ar y pryd, bydd y dull hwn yn arwain at greu cronfa gyfun yr adeg honno i gefnogi cynaliadwyedd y gwasanaethau hyn.

Rhaid i hyn fod yn ymrwymiad ac yn ymdrech ar y cyd. Anogir yr holl bartneriaid i ddod o hyd i adnoddau cyfatebol er mwyn helpu i ddatblygu ac ymgorffori modelau cyflawni integredig trwy'r system. Bydd maint a diben yr adnoddau cyfatebol ar draws gwahanol sectorau yn amrywio:

## *Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol*

Dim ond i brosiectau a roddir ar waith gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol y bydd elfen dapro'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn berthnasol. Dylai'r partneriaid hyn gyfrannu arian cyfatebol amgen wrth i gyllid Cronfa Integreiddio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru leihau. Yn achos prosiectau o dan arweiniad y trydydd sector, dylai'r partneriaid statudol gydweithio â'r darparwyr hynny i lunio cynlluniau cynaliadwyedd a chynlluniau prif ffrydio tymor hwy, fel y nodir yn yr adran isod. Gallai hyn gynnwys dyrannu cronfeydd cyfatebol gan bartneriaid statudol.

Pan gyflwynir achos dros integreiddio ac ymestyn mwy ar fodel gofal sydd eisoes ar waith trwy gyfrwng y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bennu cyfleoedd i gydweddu adnoddau gan bartneriaid pe bai hynny'n cynorthwyo i ymgorffori system neu wasanaeth newydd yn y tymor hwy. Os defnyddir adnoddau a gwasanaethau presennol fel adnoddau cyfatebol, rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod 'strategaeth ymadael' glir wedi'i nodi ac y gellir cynnal y gwasanaeth wrth i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru leihau.

## *Darparwyr y trydydd sector a darparwyr eraill*

Gan gydnabod bod sefyllfa gyllido'r trydydd sector yn wahanol, a bod y potensial i gael gafael ar gyllid craidd yn gyfyngedig, ni fydd y disgwyliad mewn perthynas ag adnoddau cyfatebol a thapro yn cael ei roi ar waith yn yr un ffordd. Dylid annog partneriaid a darparwyr o'r sector hwn i wneud cyfraniadau eraill, er enghraifft amser gwirfoddolwyr, cyfrannu cyfleusterau cymunedol a mynediad at grantiau a chronfeydd elusennol.

Fodd bynnag, dylai partneriaid statudol fod yn ymwybodol o'r risg bosibl sy'n perthyn i gynaliadwyedd gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector ar ddiwedd y pum mlynedd os na ddefnyddiwyd cronfeydd craidd i ddarparu cyllid cyfatebol a chreu sefyllfa fwy cynaliadwy yn y tymor hwy. Os bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o'r farn fod y gwasanaethau hyn yn hanfodol i'w modelau gofal, dylent geisio pennu cronfeydd cyfatebol o'u hadnoddau eu hunain er mwyn cynorthwyo i brif ffrydio'r gwasanaethau hyn.

Bydd y cyfraniadau y gall y trydydd sector a mudiadau cymunedol eu gwneud o gymorth mawr wrth feithrin twf a gallu'r gymuned ac wrth helpu sefydliadau'r trydydd sector a darparwyr eraill gyda'u statws cyfartal fel partneriaid ar y Bwrdd

Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, ni ddylid pennu bod y math hwn o gyfraniad yn hanfodol er mwyn iddynt allu cael mynediad at gronfeydd.

**Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 20% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol mewn gwerth cymdeithasol yn 2022/23.**

## Enghreifftiau o arian ac adnoddau cyfatebol

Mae'r tabl isod yn anelu at gynnig rhai enghreifftiau o arian cyfatebol ac adnoddau cyfatebol. Canllaw yn unig yw'r tabl, ac nid yw'n cynnwys pob agwedd ar arian/adnoddau cyfatebol, o gofio'r gwahaniaethau a'r cymhlethdodau sy'n perthyn i bob rhanbarth.

## Math o arian cyfatebol a disgrifiad

Arian

- Cyllid craidd partneriaid statudol
- Grantiau'r Trydydd Sector
- Cynhyrchu incwm

Amser Staff

- Amser pobl fel cyfraniad uniongyrchol at reoli a chyflawni rhaglenni
- Gwaith ymchwil a/neu weithgarwch proffesiynol, er enghraifft arbenigedd mewn caffael, cyllid, materion digidol, dadansoddeg ac ati

Amser gwirfoddolwyr

- Tystiolaeth o amser gwirfoddolwyr (anariannol)

Cyfleusterau ac adeiladau

- Adeiladau a chyfleusterau sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau a phrosiectau ar y rheng flaen i'r cyhoedd, er enghraifft mannau ar gyfer cynnig triniaeth/gofal a chymorth, mannau ar gyfer llesiant a chymdeithasu, cyd-leoli gwasanaethau a staff cyflawni.
- Cyfarpar a deunyddiau.

## Adnoddau cyfatebol anghymwys

- Ffynonellau grant eraill gan Lywodraeth Cymru (gellir defnyddio grantiau Llywodraeth Cymru i gynorthwyo i ddarparu rhaglenni, ond ni ellir eu hystyried fel arian neu adnoddau cyfatebol)
- Yr amser a dreulir gan aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn mynychu cyfarfodydd

## Beth fydd yn digwydd os bydd y Byrddau'n methu â dod o hyd i adnoddau cyfatebol?

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno cynlluniau buddsoddi, ac yna bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn dychwelyd y cynlluniau hyn. Bydd adroddiadau monitro'n cael eu hadolygu a bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn trafod y cynnydd yn erbyn y fframwaith canlyniadau a'r adnoddau cyfatebol. Hyd ddiwedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rolau rheoli cyfrifon i weithio ochr yn ochr â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a'u cynorthwyo.

Os bydd yna ymrwymiad annigonol mewn perthynas â'r nod hirdymor o fuddsoddi arian cyfatebol i gynorthwyo i ymgorffori systemau a gwasanaethau newydd, bydd y swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i lunio cynllun gwella. Fodd bynnag, os na fydd y broses hon yn llwyddo i arwain at ymrwymiad a buddsoddiad boddhaol, bydd yr achos yn cael ei uwchgyfeirio ymhellach, ac yn y pen draw mae'n bosibl y bydd cronfeydd Llywodraeth Cymru yn cael eu hatal neu eu tynnu'n ôl hyd nes y caiff y mater ei ddatrys.

## Llywodraethiant

Er gwaethaf y rhaglen waith sydd ar y gweill i gryfhau integreiddio rhanbarthol, rhaid i'r holl benderfyniadau cyllido mewn perthynas â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gael eu gwneud ar y cyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith, lle pennir y dulliau llywodraethiant, yr atebolrwydd a'r prosesau penderfynu, yn cynnwys trefniadau priodol a fydd yn galluogi cyrff sofran perthnasol i graffu ar benderfyniadau buddsoddi.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol roi dulliau ar waith er mwyn sicrhau y caiff y cyllid a ddyrennir ei reoli'n effeithiol, yn cynnwys cyllid a roddir i bartneriaid yn y trydydd sector ac i fodelau cyflawni amgen eraill, er mwyn sicrhau y bydd y cynlluniau'n llwyddo i gyflawni'r canlyniadau dynodedig mewn da bryd ac o fewn y gyllideb, yn cynnwys sicrwydd ynghylch arian ac adnoddau cyfatebol pan fo angen.

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau y cânt eu trin gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig i bobl Cymru fod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau a ariennir ganddi. Rhaid rhoi sicrwydd i swyddogion Llywodraeth Cymru fod gweithdrefnau llywodraethiant ac atal twyll rhesymol a digonol ar waith o fewn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru,

Gofynnir i ranbarthau nodi'r personél a fydd yn gyfrifol am reolaeth ariannol y Gronfa Partneriaeth Rhanbarthol, ynghyd â datgan eu bod yn llwyr ddeall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau i ymgymryd â rolau llywodraethiant, ynghyd â chraffu'n briodol ar waith y bobl sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Wrth fynd i'r afael â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, efallai y bydd rhanbarthau'n prosesu data personol ar ran Llywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru fydd y Rheolydd Data, a bydd gofynion pellach yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn cael eu nodi yn y llythyr dyfarnu cyllid.

## Monitro ac Archwilio

## Cynllun Strategol a chynigion buddsoddi

Gan ddefnyddio dogfennau a gyd-luniwyd, bydd angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lunio Cynllun Strategol a Chynigion Buddsoddi Refeniw ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, gan nodi'r rhaglen a'r gwasanaethau/prosiectau a ariennir o 2022 ymlaen. Bydd canllawiau ar lunio'r cynllun strategol a'r cynnig buddsoddi yn cael eu cynnwys mewn canllawiau ategol yn dilyn gwaith cydgynhyrchu gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

**Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, rhaid cyflwyno cynigion buddsoddi erbyn 4 Mawrth 2022 fan hwyraf, a rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cymeradwyo ddim hwyrach na 31 Mawrth 2022.**

O safbwynt cyllido blaenoriaethau cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia, bydd angen cyflwyno'r cynllun buddsoddi ar gyfer 2022-23 yn ffurfiol, ochr yn ochr ag unrhyw gynigion newydd ar gyfer prosiectau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol ar gyfer prosiectau newydd a fydd yn deillio o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia. Bydd Llywodraeth Cymru angen hyd at 15 diwrnod gwaith i ystyried cynlluniau buddsoddi a rhoi adborth. Anogir Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno cynlluniau buddsoddi mor gynnar â phosibl. Dylid nodi y bydd rhyddhau cyllid Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2022-23 yn amodol ar dderbyn gwybodaeth briodol am fonitro gweithgareddau a chanlyniadau ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd yn flaenorol.

Y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol sy'n goruchwylio'r gwaith o fonitro a rheoli'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol barhau i anfon diweddariadau, ffurflenni data monitro a newidiadau at y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol ynghyd â ffurflenni'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol at Lywodraeth Cymru.

Yn 2021/22, disgwylir i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddi o leiaf 5% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn uniongyrchol yn y gwaith o gynorthwyo gofalwyr di-dâl. Ni fydd hyn yn disodli'r gofynion statudol a osodir ar Awdurdodau Lleol i gynorthwyo gofalwyr; yn hytrach, dylai ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig er mwyn diwallu anghenion iechyd a llesiant gofalwyr di-dâl.

Yn ychwanegol at y cymorth uniongyrchol a bennir ar gyfer gofalwyr di-dâl, bydd £1m o gymorth uniongyrchol ar gyfer gofalwyr yn cael ei glustnodi ar gyfer ariannu gweithgarwch i wella'r modd y cynhwysir gofalwyr di-dâl mewn prosesau rhyddhau cleifion o'r ysbyty.

## Amserlen ar gyfer monitro ac adrodd

Er mwyn sicrhau y bydd modd casglu data mewn modd cyson trwy'r holl ranbarthau, defnyddir adroddiad statws a gydgynhyrchir i goladu data penodol bob chwarter ac i gynorthwyo proses archwilio a gwerthuso lwyddiannus. Bydd yn cael ei ddarparu'n gronnus a bydd yn cynnal cywirdeb yr adrodd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol bob chwarter er mwyn cynnal cyfarfodydd cynnydd, gan drafod cyllid, gweithgareddau allweddol, cynnydd a risgiau. Bydd yn gyfle i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drafod unrhyw bryderon sydd wedi dod i'r amlwg.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, bydd yr amserlen adrodd fel a ganlyn:

- Rhaid darparu adroddiad Chwarter 1 (cyllid a statws prosiect) erbyn diwedd mis Gorffennaf 2022 fan bellaf, a'r cyfnod adrodd yw Ebrill – Mehefin gan gynnwys y misoedd hynny
- Rhaid darparu adroddiad Chwarter 2 (adroddiadau cyllid ac effaith) erbyn diwedd mis Hydref 2022 fan bellaf, a'r cyfnod adrodd yw Ebrill – Medi gan gynnwys y misoedd hynny
- Rhaid darparu adroddiad Chwarter 3 (cyllid a statws prosiect) erbyn diwedd mis Ionawr 2023 fan bellaf, a'r cyfnod adrodd yw Ebrill – Rhagfyr gan gynnwys y misoedd hynny
- Rhaid darparu adroddiad Chwarter 4 (adroddiadau cyllid ac effaith) erbyn diwedd mis Ebrill 2023 fan bellaf, a'r cyfnod adrodd yw Ebrill – Mawrth gan gynnwys y misoedd hynny

Bydd amserlen adrodd ffurfiol yn cael ei rhoi ar waith, yn cynnwys:

*Adroddiadau Ariannol*

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno adroddiadau ariannol bob chwarter. Dylai'r rhain gynnwys rhagolygon, gwariant hyd yn hyn yn erbyn y gyllideb a statws cyflawni cyffredinol y prosiectau gan ddefnyddio offeryn BRAG. Hefyd, bydd angen asesu risgiau bob chwarter (Ch1, Ch2, Ch3 a Ch4).

*Adroddiadau am Effaith*

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno adroddiadau bob chwe mis er mwyn dangos y cynnydd a wnaed, tynnu sylw at faterion neu risgiau'n ymwneud â'r rhaglen, a nodi'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd yn sgil y prosiect yn unol â'r fframwaith canlyniadau y cytunwyd arno ac yn unol â'r fframwaith gwerthuso. Defnyddir methodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i gasglu tystiolaeth o'r effaith. Bydd angen dadansoddi'r risgiau ar ôl cyrraedd y ddwy garreg filltir (Ch2 a Ch4).

## Y broses fonitro ac adrodd, yn cynnwys sianeli

Bydd adroddiadau ac offer monitro yn cael eu cyd-lunio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i baratoi ar gyfer dechrau'r gronfa ym mis Ebrill 2022. Bydd rhagor o wybodaeth, adroddiadau, templedi ac offer yn cael eu cynnwys mewn canllawiau ategol a gydgynhyrchir gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

## Archwilio

Bydd archwiliadau cyfnodol yn cael eu cynnal dros oes y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Nod yr archwiliadau fydd asesu effaith ymddangosiadol a/neu botensial y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol o ran atal, integreiddio, cydweithredu a chynnwys yn yr hirdymor er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio'n well ar gyfer llesiant ein poblogaeth a chenedlaethau'r dyfodol.

Felly, mae hi'n hanfodol i'r rhanbarthau wneud y canlynol:

- Cadw cofnodion cyfrifyddu cyflawn, manwl gywir a dilys lle nodir yr holl incwm a'r holl wariant mewn perthynas â'r Dibenion a nodir yn y llythyr cyllido.

- Cadw cofnod cyflawn a manwl gywir o'r holl adnoddau cyfatebol a fuddsoddwyd gan bartneriaid i ategu'r gwaith o ddarparu'r modelau gofal, gyda thrywyddau archwilio clir i gadarnhau ffynonellau arian cyfatebol.

- Cyflwyno adroddiadau monitro cyflawn, manwl gywir a dilys lle cyflwynir crynodeb o'r cynnydd, cynnydd cyffredinol yn erbyn canlyniadau a gyflawnwyd ac Amodau Rheoli Gweithredol, risgiau a materion, ceisiadau i newid a gwerthusiad.

- Ar ôl rhoi rhybudd rhesymol i'r rhanbarthau (mewn amgylchiadau eithriadol, megis atal neu ganfod twyll, efallai na fydd hi'n ymarferol rhoi rhybudd), caniatáu amser rhesymol i swyddog neu swyddogion Llywodraeth Cymru neu Archwilio Cymru ymweld â safleoedd a/neu archwilio unrhyw weithgareddau a/neu archwilio a chymryd copïau o lyfrau cyfrifon a dogfennau neu gofnodion cyffelyb eraill, ni waeth sut y cânt eu storio – sef rhai a allai, ym marn resymol y swyddog, fod yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â defnyddio'r Cyllid. Nid yw'r ymgymeriad hwn yn lleihau dim ar effaith unrhyw hawliau a phwerau statudol eraill sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw swyddog, gwas neu asiant unrhyw un o'r uchod, ac mae'r ymgymeriad yn ddarostyngedig i'r cyfryw hawliau a phwerau statudol hynny.

- Cadw'r llythyr cyllido a'r holl ddogfennau gwreiddiol sy'n berthnasol i'r Cyllid hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r rhanbarthau'n ysgrifenedig y gallant eu dinistrio'n ddiogel.

# Canlyniadau a Gwerthuso

## Y Fframwaith Canlyniadau

Ar sail yr hyn a ddysgwyd yn sgil y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Trawsnewid, roedd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol angen fframwaith canlyniadau clir lle câi canlyniadau a dulliau mesur allweddol eu nodi'n glir. Byddwn yn parhau i weithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid cyflawni i siapio ein fframwaith canlyniadau, a bydd adolygiadau parhaus yn cael eu cynnal trwy gyfrwng ein Cymunedau Ymarfer. Bydd canllawiau ar y Fframwaith Canlyniadau yn pennu canlyniadau arfaethedig y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yng nghyd-destun y modelau gofal integredig cenedlaethol ac yn dangos beth yw eu perthynas â'r dulliau galluogi allweddol. Byddwn yn llunio cyfres gymeradwy o ddangosyddion a dulliau mesur ar gyfer y Gronfa. Mae ein Tabl Crynhoi Lefel Uchel (Gweler Atodiad 2: Tabl Crynhoi: Canlyniadau ar gyfer y Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol) yn cyflwyno crynodeb o ganlyniadau cyffredinol y gronfa, a hefyd nodir cysylltiadau â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol sydd wrthi'n cael ei ddatblygu. Cafodd y canlyniadau eu datblygu trwy ystyried y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Cymru Iachach.

## Mae modelau gofal integredig cenedlaethol yn diwallu anghenion y grwpiau poblogaeth ac yn ymwneud â'r dulliau galluogi allweddol

Mae'r Tabl Crynhoi yn nodi canlyniadau canolradd sy'n canolbwyntio ar unigolion. Mae gan bob un o'r modelau gofal integredig cenedlaethol ddau ganlyniad penodol sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac yn y tabl ceir enghreifftiau o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'r modelau gofal integredig cenedlaethol trwy ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol.

Defnyddir Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i ddeall ac adrodd am y modd mae modelau gofal integredig cenedlaethol wedi cynorthwyo pobl (h.y. a ydynt wedi gweithio, beth sydd wedi newid, yr hyn a ddysgwyd). Ymhellach, bydd y fethodoleg adrodd hon yn cofnodi profiadau pobl o'r modelau gofal integredig cenedlaethol er mwyn dangos yr hyn a weithiodd, i bwy, ac ym mha gyd-destun/amgylchiadau. Yn sgil hyn, bydd modd deall yn well beth yw effeithiau a manteision y canlyniadau o ran gwella anghenion llesiant pobl.

Disgwylir y bydd offer dilys (dulliau mesur) yn cael eu defnyddio mewn modd cyson ar gyfer y modelau gofal integredig cenedlaethol a'r gwasanaethau cymorth. Bydd hyn yn cynnwys offer sy'n dangos/mesur y cynnydd a wnaed gan unigolion o ganlyniad i'r cymorth a gawsant. Anogir rhanbarthau i ddefnyddio'r offer a nodir yng nghanllawiau'r Fframwaith Canlyniadau, megis y Newid Mwyaf Arwyddocaol pan gaiff hanesion am brofiadau pobl eu cofnodi a'u cymhathu, Sêr Canlyniadau, a dulliau mesur fel Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Caeredin (WEMWBS) a'r EQ-5D, er enghraifft. Fodd bynnag, gall y rhanbarthau barhau hefyd i ddefnyddio offer a ddefnyddir yn llwyddiannus eisoes.

## Gwerthuso

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu partner gwerthuso ar lefel Genedlaethol i weithio ochr yn ochr â phrosiectau, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a swyddogion Llywodraeth Cymru, fel y gellir mynd ati'n barhaus i adolygu a gwerthuso effeithiau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd y gwaith gwerthuso cenedlaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phrosiectau gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth i ategu eu gweithgareddau. Ymhellach, bydd y gwaith gwerthuso yn helpu i bennu ffactorau llwyddiant allweddol o ran datblygu ac ymgorffori'r modelau gofal integredig cenedlaethol, gan arwain at lasbrint cenedlaethol ar gyfer pob model erbyn diwedd blwyddyn 5.

## Cymunedau Ymarfer

Bydd gan Gymunedau Ymarfer rôl hollbwysig o ran rhannu dysgu a chynorthwyo prosiectau a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu'r modelau gofal integredig cenedlaethol.

Bwriedir i bob model gofal integredig cenedlaethol gael ei gymuned ymarfer ei hun:

- Gofal cymunedol – *atal a chydgysylltu cymunedol*
- Gofal cymunedol – *gofal cymhleth yn nes at y cartref*
- Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da
- Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal
- Gwasanaethau gartref o'r ysbyty
- Atebion seiliedig ar lety

Ymhellach, bydd Cymunedau Ymarfer trawsbynciol ychwanegol yn cael eu sefydlu, er enghraifft cymuned ymarfer i ymchwilio i rôl gofal a ddarperir trwy gyfrwng technoleg.

Bydd y Cymunedau Ymarfer hyn yn cyfarfod ddechrau mis Ionawr 2022. Bydd y Cymunedau Ymarfer yn cynnig cyfle i rannu enghreifftiau o arferion da, ynghyd â chymharu dysgu a phrofiad, siapio'r pynciau a chreu a phrofi adnoddau a deunyddiau y gellir eu rhannu'n eang ledled Cymru. Bydd y gweithdai'n cael eu harwain gan hwylusydd a gomisiynir, a bydd yr hwylusydd hwn yn rheoli'r trefniadau rhwydweithio gyda chymorth gan dîm Llywodraeth Cymru.

## Brandio a chyfathrebu

Er mwyn i randdeiliaid a dinasyddion allu deall sut mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn gwneud gwahaniaeth, gofynnir i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol rannu eu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yng nghyd-destun cynlluniau rhanbarthol ehangach. Dylai'r cynllun gyfleu sut y caiff cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ei ddefnyddio; nodi amrywiaeth o sianeli cyfathrebu y byddwch yn eu defnyddio i hyrwyddo'r Gronfa Gofal Integredig ac arddangos prosiectau llwyddiannus; a nodi sut y gellir cael gafael ar y cyllid a sut y gall rhanddeiliaid gyfrannu at y broses.

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydnabod y cymorth a gânt gan Lywodraeth Cymru yn y deunyddiau cyhoeddusrwydd, y datganiadau i'r wasg a'r deunyddiau marchnata a gynhyrchir mewn perthynas â'r cyllid a'r prosiectau cysylltiedig. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath gydymffurfio â chanllawiau brandio cymeradwy Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol i ddangos y gweithgarwch yr aeth y rhanbarthau i'r afael ag ef, ynghyd â'r effaith a gafodd y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno gwybodaeth fanwl ychwanegol i'w chynnwys yn yr adroddiad blynyddol.


Bydd pecyn cymorth yn cael ei roi i Fyrddau Integreiddio Rhanbarthol i'w helpu i gyfathrebu, er mwyn sicrhau cysondeb cenedlaethol o ran hunaniaeth weledol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol. Bydd y pecyn cymorth yn cynnwys negeseuon allweddol ynglŷn â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol y gall Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu rhannu gyda rhanddeiliaid, ynghyd â gwybodaeth am deipograffeg a chynllun lliwiau, a thempledi ar gyfer astudiaethau achos a dogfennau eraill.

Bydd y pecyn cymorth ar gael o fis Ebrill 2022 er mwyn cynorthwyo Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd y pecyn hwn yn ymhelaethu ar becyn cymorth blaenorol y Gronfa Trawsnewid, a gellir ei ddefnyddio mewn cytgord â hunaniaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chanllawiau brandio presennol ar lefel ranbarthol.

# Dogfennau Ategol ac Atodiadau

## Atodiad 1

## Strwythur cyllido a dyraniadau




| BPR | Cyfanswm cyfraniad Llywodraeth Cymru | Y Gronfa Genedlaethol wedi'i Chlustnodi' | | | | | Y Gronfa Seilwaith Rhanbarthol (75% hyd at £750,000) | Y Gronfa Cyflymu Newid 90% gan Lywodraeth Cymru | Y Gronfa Ymgorffori Modelau Cyflawni Cenedlaethol 70% gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig | Dementia | Dementia - Asesu'r Cof | Gofalwyr di-dâl (Rhyddhau o'r ysbyty) | Cyfanswm Cenedlaethol | | | |
| Caerdydd a'r Fro | £ 19,159,940.00 | £ 367,000 | £ 1,101,000 | £ 399,000 | £ 144,000 | £ 2,011,000 | £ 750,000 | £ 4,919,682.00 | £ 11,479,258.00 |
| Cwm Taf | £ 22,008,720.00 | £ 367,000 | £ 1,242,000 | £ 461,000 | £ 161,000 | £ 2,231,000 | £ 750,000 | £ 5,708,316.00 | £ 13,319,404.00 |
| Gwent | £ 26,858,840.00 | £ 458,000 | £ 1,611,000 | £ 565,000 | £ 191,000 | £ 2,825,000 | £ 750,000 | £ 6,985,152.00 | £ 16,298,688.00 |
| Gogledd Cymru | £ 32,486,680.00 | £ 652,000 | £ 2,153,000 | £ 678,000 | £ 213,000 | £ 3,696,000 | £ 750,000 | £ 8,412,204.00 | £ 19,628,476.00 |
| Powys | £ 6,986,920.00 | £ 337,000 | £ 468,000 | £ 133,000 | £ 41,000 | £ 979,000 | £ 750,000 | £ 1,577,376.00 | £ 3,680,544.00 |
| Bae'r Gorllwein | £ 18,480,860.00 | £ 398,000 | £ 1,175,000 | £ 381,000 | £ 129,000 | £ 2,083,000 | £ 750,000 | £ 4,694,358.00 | £ 10,953,502.00 |
| Gorllewin Cymru | £ 18,675,040.00 | £ 398,000 | £ 1,249,000 | £ 384,000 | £ 121,000 | £ 2,152,000 | £ 750,000 | £ 4,731,912.00 | £ 11,041,128.00 |
| **Cyfanswm** | **£144,657,000.00** | **£ 2,977,000** | **£ 8,999,000** | **£ 3,001,000** | **£ 1,000,000** | **£ 15,977,000** | **£ 5,250,000** | **£ 37,029,000.00** | **£ 86,401,000.00** |

## Atodiad 2

## Y Fframwaith Canlyniadau

**Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**FFRAMWAITH CANLYNIADAU CENEDLAETHOL (15 dangosydd)**

**Canlyniad: Mae holl drigolion Cymru yn mwynhau iechyd a llesiant da**

FFRAMWAITH CANLYNIADAU'R GRONFA INTEGREIDDIO RHANBARTHOL: CRYNODEB LEFEL UCHEL

Canlyniad trosfwaol ar gyfer y Modelau Gofal:

Mae'r Modelau Gofal yn bodloni anghenion y grwpiau poblogaeth ac yn ymwneud â'r dulliau galluogi allweddol

↕

Canlyniadau ac egwyddorion ehangach y system

Canlyniadau:

- Mae pobl yn iachach ac yn hapusach
- Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn well ac yn haws cael mynediad atynt
- Mae gwasanaethau iechyd a gofal yn arloesol ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf
- Eir ati i ofalu am staff iechyd a gofal, ac maent yn llawn cymhelliant

Egwyddorion:

- Caiff egwyddorion cydgynhyrchu eu hymgorffori wrth gynllunio, darparu a gwerthuso Modelau Gofal
- Mae Modelau Gofal yn ataliol ac maent yn cynnig atebion ymyrryd yn fuan
- Mae llwybrau gofal yn glir, yn deg ac yn hygyrch ar draws y grwpiau poblogaeth
- Mae Modelau Gofal yn dangos yr effaith a'r manteision a ddaw yn eu sgil

↕

Canlyniadau cyffredinol sy'n canolbwyntio ar unigolion

- Mae pobl yn teimlo'n fwy abl i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â'r hyn sy'n bwysig iddynt
- Mae gan bobl lais cryfach a mwy o reolaeth dros eu hanghenion gofal a chymorth
- Mae pobl yn fwy ymwybodol o'r math o wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael ac a leolir yn eu hardal
- Gall pobl gael gwell mynediad at ofal a chymorth yn eu cartrefi neu'n agos at eu cartrefi

↕

## Gofal cymunedol: atal a chydgysylltu cymunedol

Canlyniadau arfaethedig sy'n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff anghenion llesiant pobl eu gwella trwy ddefnyddio atebion cymunedol cydgysylltiedig,
- Mae atebion lleol sy'n ymwneud ag atal ac ymyrryd yn fuan yn cynorthwyo pobl i osgoi ymyriadau uwchgyfeirio ac ymyriadau argyfwng.

Enghreifftiau o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol):

- Mae'r modelau'n cynnig ystod addas o gyfleoedd i sicrhau eu bod yn cysylltu â'r grwpiau poblogaeth a dargedir,

- Mae'r modelau'n gwneud defnydd o gyfalaf cymdeithasol mewn cymunedau ac yn defnyddio sefydliadau gwerth cymdeithasol yn lleol,
- Mae'r modelau'n cynnig dewis o weithgareddau i ategu llesiant, yn ddigidol ac wyneb yn wyneb, trwy *'un drws'* (e.e. hybiau cymunedol integredig.

## Gofal cymunedol: gofal cymhleth yn nes at y cartref

Canlyniadau arfaethedig sy'n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff pobl eu cynnwys yn fwy wrth benderfynu ble byddant yn byw tra'n derbyn gofal a chymorth,
- Mae pecynnau gofal a chymorth cymhleth yn well am ddiwallu anghenion pobl a chânt eu darparu yn y cartref neu'n agos at y cartref.

Enghreifftiau o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol):

- Caiff y modelau eu llunio trwy waith cynllunio integredig er mwyn datblygu ystod hyblyg o opsiynau i ddiwallu anghenion pobl,
- Defnyddir cymorth seiliedig ar dechnoleg mewn modelau gofal a ddarperir yn y cartref neu'n agos at y cartref, er mwyn hyrwyddo annibyniaeth,
- Symud tuag at ddarpariaeth nid-er-elw.

## Hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol da

Canlyniadau arfaethedig sy'n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff pobl eu cynorthwyo'n well i reoli eu bywydau a'u llesiant eu hunain
- Mae gan bobl well sgiliau, gwybodaeth a hyder i gydnabod eu hanghenion llesiant eu hunain yn annibynnol.

Enghreifftiau o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol):

- Mae'r modelau'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu ag unigolion a chymunedau er mwyn eu galluogi i gael mynediad at gymorth amrywiol,
- Mae'r modelau'n gweithio gyda phobl er mwyn eu helpu i ddod yn annibynnol ac yn hunangynhaliol.

## Cynorthwyo teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal

Canlyniadau arfaethedig sy'n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff teuluoedd well cymorth i'w helpu i aros gyda'i gilydd,
- Mae cymorth therapiwtig yn gwella ac yn cyfoethogi llesiant plant â phrofiad o fod mewn gofal.

Enghreifftiau o'r hyn sy'n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio'r dulliau galluogi allweddol):

- Caiff y modelau eu hintegreiddio ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a'r trydydd sector
- Mae'r modelau'n cynnig dull cydlynus, cydgysylltiedig a chydweithredol o ddefnyddio fframwaith NYTH[1] i ddarparu cymorth therapiwtig,

[1] Fframwaith NYTH: https://cydweithrediad.gig.cymru/rhwydweithiau/rhwydwaith-iechyd-meddwl-cymru/law-yn-llaw-dros-blant-a-phobl-ifanc-2/y-fframwaith-nyth/

## Gartref o’r ysbyty

Canlyniadau arfaethedig sy’n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff pobl fynd gartref o’r ysbyty mewn modd amserol ac mae cymorth angenrheidiol ar waith pan gânt eu rhyddhau,
- Mae pobl yn deall y broses ryddhau yn well a chânt eu cynnwys yn fwy yn y broses gynllunio cyn ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Enghreifftiau o’r hyn sy’n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio’r dulliau galluogi allweddol):

- Caiff y modelau eu hintegreiddio â rhanddeiliaid a phartneriaid cyflawni allweddol, gan ddefnyddio trefniadau cydgysylltu ac asedau cymunedol lleol i ategu *‘Gartref yn Gyntaf’*
- Pan fo’n briodol, mae prosesau rhyddhau a llwybrau D2RA yn ystyried y cynlluniau a wnaed cyn i’r unigolyn fynd i’r ysbyty

## Atebion seiliedig ar lety

Canlyniadau arfaethedig sy’n canolbwyntio ar unigolion (fesul Model Cymorth):

- Caiff pobl eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o gynllunio llety i ddiwallu eu hanghenion,
- Mae gan bobl fwy o ddewis ynglŷn â ble maent yn byw, a chyda phwy.

Enghreifftiau o’r hyn sy’n ddisgwyliedig o bob Model Cymorth (gan ddefnyddio’r dulliau galluogi allweddol):

- Mae’r modelau’n cynnig llety diogel ar draws y grwpiau poblogaeth allweddol ac mae systemau gofal a chymorth integredig ar waith,
- Mae modelau sy’n cynnig atebion seiliedig ar lety yn canolbwyntio ar unigolion ac yn cynnig dull *‘cymorth ar gyfer bywyd da’*[2]

[2] Canllawiau CLlLC (2019): *Commissioning accommodation and support for a good life for people with a learning disability: Developing improved and progressive practice*